Cynnwys

1. Rhagair y Cadeirydd 5

2. Casgliadau ac Argymhellion Allweddol y Pwyllgor 7

3. Rhagymadrodd 10

Ymchwiliad y Pwyllgor 10

Ymagwedd y Pwyllgor 11

Arolwg 11

Gwybodaeth gan Athrawon ac Athrawon Cyflenwi 12

Contract Cenedlaethol Athrawon Cyflenwi 12

Canllawiau Newydd Llywodraeth Cymru 13

4. Casgliadau cyffredinol – Tystiolaeth y Pwyllgor 14

Modelau amgen ar gyfer gwaith athrawon cyflenwi 15

Barn y Pwyllgor 16

5. Casgliadau cyffredinol – Canllawiau ynghylch Rheoli Presenoldeb Gweithlu Ysgolion yn Effeithiol 17

Ymgynghoriad y Pwyllgor ar y Canllawiau 18

Barn y Pwyllgor 19

6. Defnyddio athrawon cyflenwi 20

Absenoldebau wedi'u cynllunio a heb eu cynllunio 20

Absenoldeb salwch 21

Effaith y Canllawiau newydd 23

Barn y Pwyllgor 24

Athrawon Newydd Gymhwyso 26

Effaith y Canllawiau newydd 28

Barn y Pwyllgor 29

7. Goruchwyliaeth yr Awdurdodau Lleol a'r Consortia Rhanbarthol dros Waith Athrawon Cyflenwi 30

Y Cytundeb Fframwaith Cenedlaethol a chanllawiau i'r ysgolion a'r consortia 31

Effaith y Canllawiau newydd 32

Barn y Pwyllgor 33
8. Deilliannau ac ymddygiad disgyblion 35
Effaith y Canllawiau newydd 37
Barn y Pwyllgor 38
9. Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) 40
Technolegau newydd ar gyfer DPP a'r pasbort ar-lein 42
DPP i Athrawon Newydd Gymhwyso 44
DPP mewn Cynlluniau Datblygu Ysgol 45
DPP a Rôl CGA 46
DPP gorfodol i bob athro 46
Effaith y Canllawiau newydd 47
Barn y Pwyllgor 48
10. Rheoli Perfformiad 51
Effaith y Canllawiau newydd 52
Barn y Pwyllgor 52
11. Asiantaethau cyflenwi a sicrhau ansawdd 54
Materion cyflogaeth 55
Effaith y Canllawiau newydd 55
Barn y Pwyllgor 56
12. Cyfrwng Cymraeg 57
Effaith y Canllawiau newydd 59
Barn y Pwyllgor 59
Atodiad 1 – Tystion 60
Atodiad 2 – Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig 62
Atodiad 3 – Crynodeb o'r Ymgynghoriad ar y Canllawiau ynghylch Rheoli Absenoldeb Gweithlu Ysgolion yn Effeithiol 64

1. Rhagair y Cadeirydd

1. Mae gwaith athrawon cyflenwi'n rhan hanfodol o'r system addysg. Er ei bod yn anochel y bydd athrawon yn absennol, lle mae angen gwasanaeth athrawon cyflenwi mae'n rhaid cael nod cyffredin o helpu i sicrhau bod modd darparu'n effeithiol ar ei gyfer, a bod y gwasanaeth hwnnw o'r safon uchaf, er mwyn rhoi addysg o safon i ddisgyblion drwy'r amser.

2. Mae'r nifer fawr o heriau ac anawsterau o ran bodloni'r disgwyliadau uchel ynglŷn â gwaith athrawon cyflenwi wedi'u hystyried mewn tri adroddiad diweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad. Er bod y Pwyllgor hwn wedi rhoi croeso cynnes i'r adroddiadau, a'r gwaith a wnaed, roedd pryderon yn dal i gael eu codi gan randdeiliaid, rhieni a disgyblion. Gan hynny, roedd y Pwyllgor yn dymuno ymchwilio ymhellach i hyn, gan adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes, ac ymgysylltu â'r rhai yr effeithir arnynt yn fwyaf uniongyrchol gan y materion sy'n cael eu codi, gan gynnwys disgyblion, athrawon ac athrawon cyflenwi eu hunain.

3. Roedd y Pwyllgor yn arbennig o awyddus i wybod a oedd defnyddio athrawon cyflenwi yn effeithio ar ddisgyblion, ac os oedd, pa effaith sy'n cael ei chreu. Cynhaliodd y Pwyllgor arolwg ar gyfer pobl ifanc a rhieni a gofalwyr, a ddenodd bron 1,500 o ymatebion. Rydym yn eithriadol o ddiolchgar i'r rhai a gymerodd yr amser i ymateb, gan fod hyn yn rhoi darlun clir o sut mae'r gwasanaeth athrawon cyflenwi'n cael ei weld gan y rhai sy'n ei dderbyn.

4. Mae'r farn a fynegwyd yn yr ymatebion i'r arolwg, a chan athrawon ac athrawon cyflenwi, wedi gwella'r ymchwiliad ac wedi rhoi cydbwysedd i'r Pwyllgor i ystyried tystiolaeth ehangach y rhanddeiliaid yn ei erbyn. Roedd yn amlwg bod llawer o'r safbwyntiau a gafwyd yn mynegi profiad personol. Er bod hyn wedi helpu'r Pwyllgor i ddeall sut yr effeithir ar unigolion, roedd y Pwyllgor yn awyddus i sicrhau bod yr ymchwiliad yn dal i ganolbwyntio ar y systemau a'r arferion sydd wedi'u sefydlu ar gyfer trefnu athrawon cyflenwi. Ni cheisiodd y Pwyllgor fesur ansawdd y gwaith addysgu ac mae'r adroddiad yn adlewyrchu hynny.

5. Yn ystod yr ymchwiliad hwn, cafodd llawer o faterion eu codi, rhai yn gysylltiedig â'i gilydd, ac eraill yn unigol. Y farn glir a gafwyd yn y dystiolaeth oedd y gallai llawer o'r materion hyn gael eu lliniaru pe ceid trefniadau agosach rhwng cyflogwyr athrawon cyflenwi a'r rhai sy'n gyfrifol am ddarparu addysg mewn ysgolion, sef barn a oedd yn cael ei rhannu'n eang ymysg y rhai a roddodd dystiolaeth.

6. Mae’n hargymhelliad cyffredinol yn galw ar Lywodraeth Cymru i edrych ar amrywiaeth o opsiynau ar gyfer cyflogi athrawon cyflenwi, gan gynnwys trefniadau clwstwr a weithredir gan yr awdurdodau lleol neu drwy gorff cenedlaethol. Mae’r Pwyllgor yn credu bod hwn yn gam hanfodol ymlaen, ond yn cydnabod bod hyn yn debygol o fod yn nod at y tymor hirach, gan fod y contract presennol ar gyfer athrawon cyflenwi i fod i redeg tan fis Awst 2018.

7. Gall Canllawiau newydd Llywodraeth Cymru ynghylch *Rheoli Presenoldeb Gweithlu Ysgolion yn Effeithiol*, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf, helpu i ddatrys rhai o'r materion a nodwyd yn yr ymchwiliad hwn. Mae'n bwysig nodi bod y dystiolaeth a ddyfynnir yn yr adroddiad hwn wedi dod i law cyn i’r Canllawiau gael eu cyhoeddi. Er hynny, roedd y Pwyllgor yn awyddus i sicrhau bod y Canllawiau newydd yn cael eu hystyried yn llawn fel rhan o'r ymchwiliad a chymerodd dystiolaeth ychwanegol yn eu cylch. Mae'r adroddiad hwn felly yn cynnwys cyfeiriadau at y Canllawiau, ynghyd â barn y rhanddeiliaid, a sut y bydd y Canllawiau’n effeithio ar ganfyddiadau blaenorol y Pwyllgor.

2. Casgliadau ac Argymhellion Allweddol y Pwyllgor

Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru ddechrau gweithio i gynllunio model newydd ar gyfer cyflogi athrawon cyflenwi. Wrth wneud yr argymhelliad hwn, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y contract presennol yn rhedeg tan fis Awst 2018, ond mae'n galw ar Lywodraeth Cymru i ddechrau gweithio nawr i sicrhau bod y system newydd yn ei lle yn barod. Tudalen 16

Casgliad 1: Mae'r Pwyllgor yn cytuno â chynnig Llywodraeth Cymru i ofyn am adolygiad thematig arall gan Estyn, pryd y gellir asesu effeithiolrwydd y Canllawiau. Tudalen 19

Argymhelliad 2: Cyn unrhyw adolygiad thematig arall gan Estyn, dylai Llywodraeth Cymru barhau i gydweithio â'r rhanddeiliaid i sicrhau bod y Canllawiau mor gadarn ac effeithiol ag y gallan nhw fod. Tudalen 19

Argymhelliad 3: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i adrodd yn ôl i unrhyw Bwyllgor cyfrifol yn y dyfodol ar ganlyniad ac effaith y Canllawiau yn sgil adolygiad Estyn yn 2016/17. Tudalen 19

Casgliad 2: Mae'r Pwyllgor yn nodi mai darparu ar gyfer data mwy cyson a chymaradwy yw bwriad y Canllawiau newydd. Fe ddylai hyn helpu i feithrin dealltwriaeth o'r rhesymau dros absenoldeb athrawon, a all helpu wedyn i leihau absenoldeb oherwydd salwch a'r angen am athrawon cyflenwi. Tudalen 25

Argymhelliad 4: Er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod y Canllawiau newydd wedi'u cyflwyno, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau ychwanegol i helpu i symleiddio'r system ar gyfer cyflenwi. Tudalen 25

Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru wneud ymchwil ar unwaith i ganfod (a) a oes mwy o ddefnydd ar athrawon cyflenwi mewn ardaloedd difreintiedig, a (b) achosion unrhyw gynnydd. Tudalen 25

Argymhelliad 6: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r ysgolion i sicrhau eu bod yn datblygu targedau ar gyfer monitro absenoldeb, fel y nodir yn y Canllawiau newydd, sydd wedi'u seilio ar y data y maen nhw'n ei gasglu ac ar ddata o ysgolion tebyg. Tudalen 25

Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar fyrder i ystyried y goblygiadau ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso sy'n cael eu defnyddio fel athrawon cyflenwi, er mwyn iddyn nhw allu dangos yn llawn eu bod wedi cyrraedd safonau athro proffesiynol. Tudalen 29

Argymhelliad 8: Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyfeiriad clir yn cael ei roi i'r awdurdodau lleol a'r consortia ar eu rôl ynglŷn â defnyddio athrawon cyflenwi. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i ansawdd yr addysgu a'r effaith y mae hynny'n ei chael ar safonau yn yr ysgolion. Efallai yr hoffai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r Canllawiau ynghylch Rheoli Presenoldeb Gweithlu Ysgolion yn Effeithiol i helpu i gyflawni hyn. Tudalen 34

Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil ar effeithiau gwaith athrawon cyflenwi ar y deilliannau i'r disgyblion, gan gyfeirio'n benodol at ardaloedd difreintiedig, a'r cysylltiad ag ymddygiad disgyblion. Tudalen 39

Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Canllawiau ynghylch Rheoli Absenoldeb yn Effeithiol yn cynnwys mwy o rôl ar gyfer goruchwyliaeth gan yr awdurdodau lleol neu'r consortia rhanbarthol o ran defnyddio athrawon cyflenwi mewn perthynas ag ansawdd yr addysgu a'r effaith ar safonau. Tudalen 39

Argymhelliad 11: Rhaid i Lywodraeth Cymru roi eglurder ar sut y gall y Fargen Newydd a Chynlluniau Datblygu Ysgolion gael eu defnyddio i roi cefnogaeth bendant i anghenion athrawon cyflenwi o ran DPP, yn enwedig y rhai sydd ar gontractau mwy byrdymor. Tudalen 49

Argymhelliad 12: Dylai Llywodraeth Cymru hybu pwysigrwydd DPP wyneb yn wyneb yn ogystal â dysgu ar-lein yn ei strategaethau DPP. Dylai hyn gael ei wneud drwy'r trwch, ond gan ganolbwyntio'n benodol ar DPP i athrawon cyflenwi. Tudalen 49

Argymhelliad 13: Dylai Llywodraeth Cymru edrych ar y potensial ar gyfer DPP gorfodol, gan gynnwys y potensial ar gyfer sefydlu gofynion DPP blynyddol er mwyn cadw'ch cofrestriad, fel y mae wedi'i dreialu gan Gyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban. Tudalen 49

Argymhelliad 14: Rhaid i'r Gweinidog nodi'r glir ei weledigaeth ar gyfer Cyngor y Gweithlu Addysg wrth ddatblygu DPP, gan gyfeirio'n benodol at athrawon cyflenwi. Tudalen 49

Argymhelliad 15: Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio'n uniongyrchol â'r asiantaethau cyflenwi i edrych ar y potensial i adnewyddu elfennau hanfodol hyfforddiant, gan gynnwys y potensial i gynyddu'r ddarpariaeth DPP yn ystod gwyliau ysgol. Tudalen 49

Argymhelliad 16: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Estyn yn mynd ati, fel rhan o'u hadolygiad o'r Canllawiau newydd, i ystyried a yw'r gosodiad yn y Canllawiau ynglŷn â 'darpariaeth ysgol ar gyfer cefnogi datblygiad proffesiynol...' wedi creu'r canlyniad anfwriadol bod ysgolion yn cyflogi cyfres o staff byrdymor lle gallai opsiwn mwy hirdymor fod yn fwy priodol. Tudalen 50

Argymhelliad 17: Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â'r asiantaethau cyflenwi er mwyn helpu i sicrhau bod y broses rheoli perfformiad yn cael ei darparu ar gyfer yr holl athrawon cyflenwi, nid y rhai sy'n tangyflawni yn unig. Tudalen 53

Argymhelliad 18: Rhaid i Lywodraeth Cymru gydweithio â'r rhanddeiliaid i greu system fwy cadarn ar gyfer darparu adborth ar berfformiad athrawon cyflenwi. Dylai'r Gweinidog ystyried a allai'r Canllawiau newydd gael eu haddasu i gynnwys mwy o rôl i'r awdurdodau lleol neu'r consortia rhanbarthol o ran helpu i reoli perfformiad athrawon cyflenwi byrdymor. Tudalen 53

Argymhelliad 19: Dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori ag asiantaethau ac athrawon cyflenwi i ystyried a fyddai sefydlu achrediad neu nod barcut penodol i Gymru ar gyfer athrawon cyflenwi yn gwella sicrwydd ansawdd, ac fe ddylai weithio i sefydlu nod barcut o'r fath os yw'n briodol. Tudalen 56

Argymhelliad 20: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Canllawiau newydd yn cynnwys esboniad cliriach ar y rheolau ar gyfer defnyddio cwmnïau ymbarél (rhanddirymiad Sweden) er mwyn sicrhau nad yw hynny'n creu effaith negyddol ar ansawdd na darpariaeth athrawon cyflenwi nac ar gyfrifoldebau DPP yr asiantaeth. Tudalen 56

Argymhelliad 21: Fel rhan o'i chais i Estyn gynnal adolygiad thematig arall o drefniadau cyflenwi yn 2016/17, dylai Llywodraeth Cymru gynnwys cwestiwn athrawon cyflenwi cyfrwng Cymraeg. Tudalen 59

Argymhelliad 22: Fel rhan o'r ymchwil a argymhellir ar effaith gwaith athrawon cyflenwi ar y deilliannau ar gyfer disgyblion (gweler Argymhelliad 9), dylid cael cyfeiriad penodol at y deilliannau ar gyfer disgyblion mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Tudalen 59

3. Rhagymadrodd

8. Ym mis Medi 2013, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru ac Estyn, gan weithio ar y cyd, adroddiadau ynghylch gwaith athrawon cyflenwi yng Nghymru.

- Yn *Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon* gan Swyddfa Archwilio Cymru, edrychwyd ar effeithlonrwydd trefniadau'r adrannau adnoddau dynol i leihau absenoldeb athrawon ar lefel yr ysgol ac ar lefel yr awdurdod lleol, a gwerth y trefniadau hynny am arian.
- Yn *Effaith Absenoldeb Athrawon* gan Estyn, hoeliwyd sylw ar effaith absenoldeb athrawon ar ddysgwyr ac ar ddarpariaeth yr ystafell ddosbarth a sut mae'r ysgolion yn rheoli effaith absenoldeb athrawon.

9. Cynhaliodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ymchwiliad byr hefyd ynghylch 'trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon' gan gyhoeddi ei adroddiad ym mis Mai 2014, a gwneud 14 o argymhellion.

Ymchwiliad y Pwyllgor

10. Ym mis Rhagfyr 2014, cytunodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (y Pwyllgor) y byddai'n cynnal ymchwiliad i Waith Athrawon Cyflenwi (yr ymchwiliad). Nod clir y Pwyllgor oedd adeiladu ar y gwaith a oedd eisoes wedi'i wneud, gan gymryd i ystyriaeth yr adolygiadau diweddar, a chanolbwyntio ar feysydd penodol lle roedd pryderon yn dal i gael eu codi.

11. Gan hynny, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i athrawon cyflenwi yng Nghymru, gan gyfeirio'n benodol at y canlynol:

- cyffredinolrwydd y defnydd o athrawon cyflenwi, wedi'i gynllunio a heb ei gynllunio;
- yr amgylchiadau pan ddefnyddir athrawon cyflenwi (gan gynnwys pwy sy'n eu defnyddio; yr amgylchiadau pan y'u defnyddir; y math o weithgareddau dysgu sy'n digwydd dan oruchwyliaeth athrawon cyflenwi; a ydynt yn gymwys i ddysgu pynciau perthnasol);
- yr effaith ar y deilliannau i'r disgyblion o ganlyniad i ddefnyddio athrawon cyflenwi (gan gynnwys unrhyw effaith ar ymddygiad disgyblion);
- datblygiad Proffesiynol Parhaus athrawon cyflenwi ac effaith bosibl y Model Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol;

- rheoli perfformiad athrawon cyflenwi;
- a oes gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ddigon o oruchwyliaeth dros y defnydd o athrawon cyflenwi;
- amrywiaeth lleol a rhanbarthol yn y defnydd o athrawon cyflenwi;
- asiantaethau cyflenwi a sicrhau ansawdd;
- unrhyw faterion penodol yn ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg

Ymagwedd y Pwyllgor

12. Yn ystod ei ymchwiliad, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y canlynol:

- NUT Cymru;
- UCAC;
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a'r Awdurdodau Addysg Lleol;
- NASUWT;
- Yr Athro Ken Jones a Peter Thomas, Prifysgol Cymru y Drindod Dewis Sant;
- Cyngor y Gweithlu Addysg (CyngACC ar y pryd);
- New Directions;
- Teaching Personnel;
- ATL Cymru; a'r
- Gweinidog Addysg a Sgiliau.

13. Ceir rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar yn Atodiad 1. Cyhoeddodd y Pwyllgor ymgynghoriad hefyd gan wahodd rhanddeiliaid allweddol i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i fwydo gwaith y Pwyllgor. Ceir rhestr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn Atodiad 2.

14. Yn ychwanegol, roedd y Pwyllgor yn eithriadol o awyddus i glywed barn y rhai yr effeithir arnynt yn fwyaf uniongyrchol. Roedd hyn yn cynnwys disgyblion, eu rhieni/gofalwyr, athrawon (gan gynnwys penaethiaid) ac athrawon cyflenwi eu hunain.

Arolwg

15. Crëwyd dau arolwg gan anelu at dargedu plant a phobl ifanc o oedran ysgol, a rhieni a gofalwyr plant o oedran ysgol. Gofynnwyd amryw o

gwestiynau ynghylch a yw defnyddio athrawon cyflenwi'n effeithio ar ddisgyblion ac, os ydyw, pa effaith y mae hynny'n ei chreu. Gofynnwyd hefyd i'r cyfranogwyr roi eu syniadau am wersi a allai gael eu haddysgu gan athro cyflenwi, pa fath o bethau sy'n cael eu dysgu yn ystod y gwersi hynny a sut maen nhw'n wahanol i wersi eu hathro arferol.

16. Cafwyd cyfanswm o 1486 o ymatebion, gan gynnwys 929 o ymatebion gan blant a phobl ifanc, a 557 o ymatebion gan rieni a gofalwyr. Mae canlyniadau'r arolwg wedi'u cyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Gwybodaeth gan Athrawon ac Athrawon Cyflenwi

17. Fel rhan o'r ymgynghoriad ysgrifenedig, cafwyd cyfanswm o 14 o ymatebion gan athrawon/penaethiaid. Cafwyd 12 o ymatebion gan athrawon cyflenwi.

18. Hefyd, cynhaliodd y Pwyllgor ddwy sesiwn dystiolaeth breifat, y naill gyda phanel o dri Phennaeth/Dirprwy Bennaeth a'r llall gyda thri o athrawon cyflenwi, i ymchwilio ymhellach i'r dystiolaeth a gafwyd.

Contract Cenedlaethol Athrawon Cyflenwi

19. Clywodd yr Aelodau fod y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi sefydlu contract tair-blynedd ar gyfer staff cyflenwi, a ddyfarnwyd i New Directions. Daeth y contract i rym ar 1 Awst 2015, ac mae'n rhedeg am dair blynedd (gydag opsiwn o'i ymestyn am ddeuddeg mis arall).

20. Mae pob un o'r 22 o awdurdodau lleol wedi ymrwymo i ddefnyddio'r Cytundebau Fframwaith y mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi'u sefydlu. Gan hynny, mae'n amlwg y bydd yr Awdurdodau Lleol yn disgwyl i ysgolion eu hardaloedd ddefnyddio'r fframwaith i fodloni eu hangen am athrawon cyflenwi – byddai hynny'n golygu mynd drwy New Directions. Er hynny, mae'n bwysig nodi nad yw'r ysgolion wedi'u rhwymo gan y fframwaith a'u bod yn rhydd i ddefnyddio unrhyw ddull cyflenwi ar gyfer eu gwersi.

21. Drwy'r ymchwiliad hwn i gyd, roedd y Pwyllgor yn ymwybodol y gallai'r contract cenedlaethol gyfyngu ar rai o'r camau y gellid eu cymryd, yn enwedig yn y tymor byr. Mae argymhellion y Pwyllgor yn adlewyrchu hyn.

Canllawiau Newydd Llywodraeth Cymru

22. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig ef i'r Pwyllgor[1], cyfeiriodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau at ganllawiau newydd ar reoli presenoldeb athrawon a oedd yn cael eu datblygu. Roedd y Gweinidog wedi cadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi mynd ati, ers i adroddiadau Estyn, Swyddfa Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gael eu cyhoeddi, i gymryd nifer o gamau rhagweithiol i fynd i'r afael â'u hamrywiol argymhellion, gan gynnwys datblygu'r Canllawiau ynghylch Rheoli Presenoldeb Gweithlu Ysgolion yn Effeithiol (y Canllawiau).

23. Yn ystod ei sesiwn gerbron y Pwyllgor,[2] ymrwymodd y Gweinidog i rannu'r Canllawiau ar ffurf drafft gyda'r Pwyllgor cyn iddyn nhw gael eu cyhoeddi. Fe wnaeth y Gweinidog hyn drwy gyfrwng llythyr at y Pwyllgor ar 23 Mehefin.[3] Ar yr adeg honno, roedd y Pwyllgor wedi gorffen cymryd tystiolaeth fel rhan o'i ymchwiliad, ond yn teimlo ei bod yn hollbwysig bod y Canllawiau'n cael eu hystyried fel rhan o'r ymchwiliad hwnnw.

24. Gan hynny, ymrwymodd y Pwyllgor i ofyn barn y rhanddeiliaid ar y Canllawiau ac ymrwymo y câi'r farn honno ei bwydo i mewn fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor.

[1] CYPE(4) 15-15 - Papur 1
[2] Tystiolaeth lafar, 20 Mai 2015, Cofnod y Trafodion
[3] CYPE(4) 19-15 - Papur i'w Nodi

4. Casgliadau cyffredinol – Tystiolaeth y Pwyllgor

25. Roedd y prif faterion a nodwyd yn y dystiolaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor yn ymwneud â'r meysydd allweddol canlynol:

- defnyddio athrawon cyflenwi o ganlyniad i salwch athrawon a materion perthynol ynglŷn â rheoli absenoldeb athrawon parhaol;
- cymorth i Athrawon Newydd Gymhwyso sy'n gweithio fel staff cyflenwi;
- effaith bosibl defnyddio athrawon cyflenwi ar y deilliannau i'r disgyblion;
- DPP a rheoli perfformiad;
- rôl yr awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol wrth oruchwylio athrawon cyflenwi;
- asiantaethau cyflenwi a sicrhau ansawdd;
- prinder athrawon cyflenwi cyfrwng Cymraeg â hyfforddiant digonol.

26. Ystyrir y meysydd hyn yn fanylach drwy'r adroddiad, ac mae'r Pwyllgor wedi gwneud argymhellion/casgliadau penodol ym mhob un o'r meysydd hyn a ddylai gael eu hystyried yn y tymor byr i'r tymor canolig.

27. Er hynny, mae'r dystiolaeth hefyd yn awgrymu y gallai llawer o'r materion a nodwyd gael eu lliniaru pe ceid trefniadau agosach rhwng cyflogwyr athrawon cyflenwi a'r rhai sy'n gyfrifol am ddarparu addysg yn yr ysgol, er enghraifft, trefniadau clwstwr yn cael eu gweithredu gan yr awdurdodau lleol neu gorff cenedlaethol. Gallai trefniadau o'r fath gefnogi Athrawon Newydd Gymhwyso; darparu cymorth ar gyfer DPP a rheoli perfformiad; darparu sicrwydd ansawdd a helpu gyda'r prinder cyfrwng Cymraeg.

28. Er na ddatganodd farn ar symud tuag at fodel cenedlaethol neu ranbarthol, awgrymodd y Gweinidog ei fod wedi ystyried modelau amgen ar gyfer gwaith athrawon cyflenwi, a bod newidiadau at y tymor hirach wedi'u hystyried. Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd y Gweinidog:

> "…there are things that perhaps will need to be looked at in this period of three or four years in terms of agencies. We've sort of gone along with an England-and-Wales model for the moment and we have

signed on the dotted line. It will be my responsibility to try and make sure that that system works to its very best in that extended period."[4]

a hefyd:

"I do have a preferred model in my head, and a lot of people wouldn't be very surprised what it looked like, but I'm very keen that we have a consensual approach towards getting there. And, actually, we will learn a lot through this transformation over the next three years that will enable us to have a system, whether it contains the supply agencies are not, at the end of that, when we get to renew those contracts or not. We will have learned a lot in the meanwhile about exactly what kind of system we will need."

Modelau amgen ar gyfer gwaith athrawon cyflenwi

29. Awgrymodd Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) mai rhan o'r broblem ynglŷn â'r sefyllfa bresennol yw nad oedd yr awdurdodau lleol yn cynnal eu cronfeydd. Pan wnaeth PCYDDS ymchwil gyntaf 10 i 15 mlynedd yn ôl, gwelwyd nad oedd gan yr awdurdodau lleol wybodaeth ar gael yn rhwydd ynglŷn â phwy oedd ganddyn nhw yn eu cronfeydd o athrawon cyflenwi. Maen nhw'n awgrymu bod hyn wedi arwain at sefyllfa lle mae'r cyfrifoldeb wedi llithro allan o ddwylo'r awdurdodau lleol.

30. Aeth PCYDDS ymlaen i ddweud y bydden nhw, mae'n debyg, yn cynnig model gweithlu rhanbarthol a gâi ei gydlynu a'i arwain gan Lywodraeth Cymru.

31. Awgrymodd Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) fodel amgen ar gyfer athrawon cyflenwi lle byddai awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol neu gorff cenedlaethol yn cyflogi Athrawon Newydd Gymhwyso i glwstwr o ysgolion i weithredu fel athrawon cyflenwi, gan ddweud:

"we do think that there could be real wins by local authorities employing supply teachers to cover a cluster of schools, because it would aid the pupil continuity in terms of learning, the CPD opportunities could then come onstream, and these newly qualified teachers could have more substantive posts. It works in other industries, but it does seem to be something that could work here in Wales."[5]

[4] Tystiolaeth lafar, 20 Mai 2015, Cofnod y Trafodion
[5] Tystiolaeth lafar, 6 Mai 2015, Cofnod y Trafodion

32. Awgrymodd llawer o'r ymatebwyr y dylai'r awdurdodau lleol gadw eu rhestr neu eu cronfa eu hunain o athrawon cyflenwi. Serch hynny, er eu bod yn cytuno, mae'r NUT yn dweud ei bod yn bosibl nad oes gan yr awdurdodau lleol y capasiti na'r ewyllys i gadw rhestrau cyflenwi.

33. Ystyriodd y Pwyllgor fodelau mewn mannau eraill, a chafwyd briff ymchwil ar y model sydd ar waith yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban.

Barn y Pwyllgor

34. Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw'n ymddangos bod y model presennol ar gyfer gwaith athrawon cyflenwi'n gweithio'n effeithiol. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylid ystyried diwygio'r ffordd y cyflogir athrawon cyflenwi, gan gynnwys y posibilrwydd o ddefnyddio trefniadau clwstwr neu gyflogaeth drwy gorff cenedlaethol fel dwy enghraifft yn unig. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth ofalus i fodelau cenedlaethol mewn mannau eraill, megis Gogledd Iwerddon.

35. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y bydd angen anrhydeddu'r contract presennol, ac felly na allai unrhyw system newydd fod ar waith tan o leiaf fis Awst 2018. Er hynny, dylai Llywodraeth Cymru ddechrau gweithio nawr i gynllunio model newydd ar gyfer cyflogi athrawon cyflenwi, i sicrhau bod y system newydd ar waith yn barod ar gyfer diwedd y contract presennol.

Argymhelliad 1: Dylai Llywodraeth Cymru ddechrau gweithio i gynllunio model newydd ar gyfer cyflogi athrawon cyflenwi. Wrth wneud yr argymhelliad hwn, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y contract presennol yn rhedeg tan fis Awst 2018, ond mae'n galw ar Lywodraeth Cymru i ddechrau gweithio nawr i sicrhau bod y system newydd yn ei lle yn barod.

5. Casgliadau cyffredinol – Canllawiau ynghylch Rheoli Presenoldeb Gweithlu Ysgolion yn Effeithiol

36. Fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mewn tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i'r Pwyllgor, cyfeiriodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau at y canllawiau ynghylch Rheoli Presenoldeb Gweithlu Ysgolion yn Effeithiol (y Canllawiau) a oedd yn cael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru.

37. Roedd y Gweinidog wedi cadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi mynd ati, ers i adroddiadau gan Estyn, Swyddfa Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gael eu cyhoeddi, i gymryd nifer o gamau rhagweithiol i fynd i'r afael â'u hamrywiol argymhellion, gan gynnwys datblygu'r Canllawiau, y dywedodd y Gweinidog yn ei dystiolaeth lafar y bydden nhw'n becyn o ganllawiau gweddnewidiol.[6]

38. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor, cadarnhaodd y Gweinidog fod y Canllawiau'n cael eu drafftio ar y cyd â'r awdurdodau lleol a thrwy ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol o'r sector.[7] Dywedodd y Gweinidog y byddai'r Canllawiau'n cynnig "a framework to improve the cover of lessons to minimise disruption to children's learning; ensure value for money for education; and to assist in reducing teacher absence".

39. Ar 23 Mehefin, ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgor gan ddarparu copi o'r canllawiau drafft, i ofyn barn y Pwyllgor. Dywedasai'r Gweinidog yn gynharach y byddai'n ddiolchgar iawn am gael "the committee's input and view into what that guidance really needs to emphasise…".[8]

40. Ymatebodd y Pwyllgor i'r Gweinidog ar 2 Gorffennaf 2015. Roedd y Pwyllgor yn pryderu nad oedd y Canllawiau drafft yn mynd yn ddigon pell mewn rhai meysydd pwysig, gan gynnwys:

- diffyg data cymaradwy, cyson ac ystyrlon ynglŷn ag absenoldeb oherwydd salwch; a
- goruchwyliaeth yr awdurdodau lleol dros ddefnyddio athrawon cyflenwi.

41. O gofio pwysigrwydd posibl y Canllawiau, cytunodd y Pwyllgor y byddai'n eu hystyried yn fwy ffurfiol fel rhan o'r ymchwiliad a oedd ar ei

[6] Tystiolaeth lafar, 20 Mai 2015, Cofnod y Trafodion
[7] CYPE(4) 15-15 - Papur 1
[8] Tystiolaeth lafar, 20 Mai 2015, Cofnod y Trafodion

hanner, gan ofyn barn y rhanddeiliaid. Anogodd y Pwyllgor y Gweinidog i ohirio cyhoeddi'r canllawiau nes bod y materion a nodwyd wedi'u hegluro.

42. Ymatebodd y Gweinidog i bryderon y Pwyllgor ar 9 Gorffennaf 2015, gan ehangu ar y manylion yn y Canllawiau.[9] Cadarnhaodd y Gweinidog ei fod yn dal yn fwriad ganddo gyhoeddi'r Canllawiau cyn diwedd tymor yr haf, a hynny er mwyn i'r holl randdeiliaid allweddol eu defnyddio i fwydo'u polisïau a'u harferion ar gyfer dechrau'r flwyddyn academaidd.

43. Rhoddodd y Gweinidog sicrwydd i'r Pwyllgor hefyd ei fod, wrth ddatblygu'r Canllawiau, wedi ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, a oedd wedi rhoi adborth ar lafar ac mewn ysgrifen. Hefyd, roedd swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cynnal cyfarfodydd ag ymarferwyr, awdurdodau lleol, cynrychiolwyr undebau a Swyddfa Archwilio Cymru i fwydo'r canllawiau.

44. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Gweinidog hefyd:

> Bydd Llywodraeth Cymru'n cyflwyno cais i Estyn am adolygiad thematig pellach yn 2016/17 ynghylch trefniadau cyflenwi ac er mwyn asesu effeithiolrwydd y canllawiau. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n bosibl i'r ddogfen ganllaw newydd gael ei datblygu a'i sefydlu am flwyddyn academaidd gyfan cyn i'r astudiaeth gael ei chynnal.'[10]

Ymgynghoriad y Pwyllgor ar y Canllawiau

45. Nododd y Canllawiau drafft mai eu diben oedd "rhoi canllawiau ar sut y mae modd rheoli presenoldeb ac absenoldeb yn effeithiol er mwyn sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i gynnal parhad dysgu". Ymgynghorodd y pwyllgor â rhanddeiliaid allweddol i gadarnhau'r farn a oedd y canllawiau wedi cyflawni'r dibenion hyn.

46. Cafwyd chwech o ymatebion i ymgynghoriad y Pwyllgor ar y canllaw a gyhoeddwyd. Daeth y rhain gan: Estyn; Undeb yr Athrawon (NASUWT); New Directions; Cyngor y Gweithlu Addysg (EWC); a dau ymateb gan athrawon cyflenwi.

47. Yn gyffredinol, roedd y mwyafrif o'r rhai a ymatebodd yn fodlon ar y Canllawiau. Roedd rhai themâu cyffredin yn y mwyafrif o'r ymatebion, yn benodol ynglŷn â'r rhanddirymiad yn Sweden, a datblygu proffesiynol

[9] Llythyr gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau, 9 Gorffennaf 2015
[10] CYPE(4) 15-15 – Papur 1

parhaus.[11] Ystyrir y materion hyn ymhellach, ac ar wahân, yn yr adrannau perthnasol yn yr adroddiad hwn. Mae crynodeb o'r ymatebion wedi'i gynnwys yn Atodiad 3.

Barn y Pwyllgor

48. Yn gyffredinol, a chan gymryd barn y rhanddeiliaid i ystyriaeth, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y Canllawiau'n gwneud rhywfaint i fynd i'r afael â rhai o'r materion a nodwyd yn adroddiadau Estyn, Swyddfa Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Er hynny, mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn rhy fuan i ddweud a fydd y Canllawiau'n cyflawni'r diben a nodir ynddyn nhw ac yn creu effaith gadarnhaol ar reoli absenoldeb athrawon yn effeithiol.

49. Lle mae gan y Canllawiau y potensial i fynd i'r afael â materion a nodwyd yn ymchwiliad y Pwyllgor, wedi hyn wedi'i amlygu yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn, ac wedi'i adlewyrchu yng nghasgliadau ac argymhellion y Pwyllgor.

50. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â chynnig Llywodraeth Cymru y dylid gofyn am adolygiad thematig arall gan Estyn ynglŷn â threfniadau cyflenwi, pryd y gellir asesu effeithiolrwydd y Canllawiau. Er hynny, mae'r Pwyllgor hefyd yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â'r rhanddeiliaid yn barhaus, i sicrhau bod y Canllawiau mor gadarn ac effeithiol ag y gallan nhw fod.

51. Mae'r Pwyllgor hefyd yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i adrodd yn ôl i unrhyw Bwyllgor cyfrifol yn y dyfodol ar ganlyniad ac effaith y Canllawiau yn sgil adolygiad Estyn yn 2016/17.

Casgliad 1: Mae'r Pwyllgor yn cytuno â chynnig Llywodraeth Cymru i ofyn am adolygiad thematig arall gan Estyn, pryd y gellir asesu effeithiolrwydd y Canllawiau.

Argymhelliad 2: Cyn unrhyw adolygiad thematig arall gan Estyn, dylai Llywodraeth Cymru barhau i gydweithio â'r rhanddeiliaid i sicrhau bod y Canllawiau mor gadarn ac effeithiol ag y gallan nhw fod.

Argymhelliad 3: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i adrodd yn ôl i unrhyw Bwyllgor cyfrifol yn y dyfodol ar ganlyniad ac effaith y Canllawiau yn sgil adolygiad Estyn yn 2016/17.

[11] Mae Rhanddirymiad Sweden yn ymwneud â hawl gweithiwr asiantaeth i gyflog cyfartal pan gaiff ei gyflogi ar sail barhaol gan gwmni ymbarel.

6. Defnyddio athrawon cyflenwi

Absenoldebau wedi'u cynllunio a heb eu cynllunio

52. Mae'r Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth bod athrawon cyflenwi'n cael eu defnyddio'n helaeth mewn ysgolion. Serch hynny, er bod y mwyafrif o'r ymatebion yn cytuno bod athrawon cyflenwi'n cael eu defnyddio'n gyffredinol, doedd dim consensws ai ar sail cynllun ynteu heb gynllun yr oedd hynny'n cael ei wneud.

53. Mae Cofrestr Athrawon Cymwysedig Cymru, sy'n cael ei chadw gan Gyngor y Gweithlu Addysg (CGA), yn cynnwys bron 5000 o athrawon cyflenwi yng Nghymru, y mwyafrif llethol ohonyn nhw'n weithredol. Cafodd y ffigur ei gadarnhau gan CGA yn eu tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor.[12]

54. Mae CGA yn awgrymu bod athrawon cyflenwi'n cael eu defnyddio'n "drwm" ar sail gynlluniedig a heb gynllun. Rhwng Mawrth a Mai 2014, cynhaliodd CGA arolwg ar ran Llywodraeth Cymru, i gasglu gwybodaeth fanwl am waith a phrofiad athrawon cyflenwi yng Nghymru.[13] Cafodd yr arolwg ei ddychwelyd gan 2,162 o athrawon cyflenwi (sef 41.4% o'r rhai a oedd wedi'u cofrestru ar y pryd). Dyma rai o'r canfyddiadau allweddol a gafwyd yn yr arolwg:

- y rhesymau mwyaf cyffredin pam roedd ar ysgolion angen athrawon cyflenwi oedd absenoldeb oherwydd salwch (41%) neu am fod athrawon parhaol yn ymgymryd â datblygu proffesiynol (32.9%);
- roedd athrawon cyflenwi yng Nghymru yn bennaf naill ai (a) ar ddechrau eu gyrfa ac yn gwneud gwaith cyflenwi i raddau helaeth oherwydd diffyg contractau parhaol neu gontractau hirdymor dros dro, neu (b) tuag at ddiwedd eu gyrfa fel athrawon neu wedi ymddeol o swydd addysgu sylweddol;
- nifer cyfartalog y diwrnodau yr oedd athro cyflenwi yn gweithio oedd 2.7 yr wythnos, ond roedd yn amlwg bod y rhai ar ddechrau eu gyrfa yn ceisio gweithio cynifer o ddiwrnodau ag y gallent (3.5 diwrnod yr wythnos ar gyfartaledd);
- roedd mwy o athrawon cyflenwi yn gweithio yn y cyfnod cynradd (bron 60%).

[12] Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor y Gweithlu Addysg (CyngACC cynt), ST17
[13] Arolwg Athrawon Cyflenwi gan CyngACC – Adroddiad Cryno

55. Adroddodd Estyn fod defnydd cyfartalog athrawon cyflenwi yn uwch mewn ardaloedd difreintiedig lle ceir mwy o anawsterau wrth recriwtio athrawon, yn enwedig mewn mathemateg a ffiseg.

56. Yn eu tystiolaeth lafar nhw, amcangyfrifodd New Directions sydd â'r contract cenedlaethol ar gyfer darparu athrawon cyflenwi, fod 30 y cant o'u hathrawon cyflenwi "o ddydd i ddydd" yn cael eu defnyddio i lenwi bylchau oherwydd salwch dros dro.[14]

57. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan PCYDDS, sydd wedi gwneud ymchwil ar ddefnyddio athrawon cyflenwi yng Nghymru. Mynegodd PCYDDS farn gref bod y trefniadau ar gyfer cyflenwi yn gymhleth iawn. Yn eu tystiolaeth lafar dywedodd y brifysgol:

> "It's very complex. It's complex in terms of each local authority, it's complex regionally and it's complex locally, from school to school. What our evidence is showing is that complexity is causing issues in terms of how we manage the coherence of this."[15]

58. Awgrymodd tystiolaeth PCYDDS hefyd fod yna ostyngiad o ran defnyddio absenoldeb wedi'i gynllunio, megis DPP, ond roedd hynny'n gysylltiedig â'r ffaith bod yna ostyngiad yn yr arfer o ryddhau athrawon o'r ystafell ddosbarth. Er hynny, doedd hynny ddim yn golygu nad oedd yna gynnydd yn nifer yr athrawon cyflenwi a oedd yn angenrheidiol ar gyfer absenoldebau wedi'u cynllunio ar gyfer pethau eraill, yn enwedig absenoldeb oherwydd salwch.

59. Dywedodd PCYDDS hefyd fod newidiadau yn nhrefniadau cyflogi athrawon yn sgil gostyngiadau yng nghyllidebau ysgolion wedi effeithio ar ddefnyddio athrawon cyflenwi a natur y gwaith y mae'n ofynnol iddyn nhw ei wneud (yn aml yn gorfod ymdrin â dosbarthiadau y tu allan i feysydd eu hyfforddiant arbenigol).

Absenoldeb salwch

60. Cafwyd cytundeb eang bod angen deall y rhesymau sylfaenol dros yr achosion a'r rhesymau dros yr absenoldeb – wedi'i gynllunio neu beidio – er mwyn rheoli salwch absenoldeb mewn modd priodol ac effeithiol.

61. Awgrymodd y dystiolaeth a gafwyd gan undebau'r athrawon ei bod yn bosibl mai straen a'r cynnydd yn y pwysau ar athrawon oedd y rhesymau am

[14] Tystiolaeth lafar, 6 Mai 2015, Cofnod y Trafodion
[15] Tystiolaeth lafar, 26 Mawrth 2015, Cofnod y Trafodion

y nifer cynyddol o absenoldebau oherwydd salwch. Dywedodd NASUWT hefyd ei bod yn debygol y bydd mwy o ddefnyddio ar athrawon cyflenwi mewn ardaloedd difreintiedig “because … teachers working in the schools in areas of disadvantage are under greater stresses and strains”. Awgrymodd NASUWT mai ymddygiad disgyblion mewn llawer o’r ysgolion hyn oedd un rheswm posibl.

62. Dywedodd y mwyafrif o'r rhai a gyflwynodd dystiolaeth y gall polisïau rheoli cadarn yn yr ysgolion helpu i leihau absenoldeb. Tystiolaeth gymysg a gafwyd ynghylch defnyddio cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith yn sgil cyfnodau o absenoldeb oherwydd salwch. Cafwyd ambell awgrym nad oedd cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith yn cael eu cynnal, tra oedd eraill yn amau pa mor gadarn oedd cyfweliadau o'r fath.

63. Dywedodd NASUWT y dylai cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith gael eu cynnal mewn ffordd gefnogol, a’u bod yn cytuno bod angen inni edrych ar yr hyn a achosodd y salwch. Er hynny, nid oeddent yn credu bod digon yn cael ei wneud yn hyn o beth, yn enwedig o ran salwch sy'n gysylltiedig â straen. Yn eu barn nhw, mae’n bosibl nad yw’r ysgolion yn awyddus i wybod beth sydd wedi achosi straen i'r athro, oherwydd, weithiau, mae’r straen hwnnw wedi’i achosi gan y ffordd y caiff yr athro hwnnw ei reoli.

64. Er hynny, roedd yn glir ar sail tystiolaeth y mwyafrif o’r tystion, a’r ymatebwyr i ymgynghoriad y Pwyllgor, mai cyfyngedig oedd y data yn y maes hwn, ac felly ei bod yn anodd creu darlun cywir o’r rhesymau dros absenoldeb.

65. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Gweinidog fod gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad i gyhoeddi data ar absenoldeb athrawon bob blwyddyn ar lefel yr awdurdod lleol er mwyn helpu unrhyw dueddiadau posibl i gael eu nodi.[16] Bydd y data ar gael i fod yn rhan o’r broses o reoli, monitro, adolygu a herio pobl gyda’r awdurdodau lleol a’r consortia rhanbarthol.

66. O’i holi am gwestiwn casglu data ynglŷn ag absenoldeb athrawon, dywedodd y Gweinidog yn ei dystiolaeth fod hyn yn sefyllfa bur gymhleth ac nad oedd y darlun yn eglur i neb.[17] Roedd hyn yn cynnwys amrywiadau o ran casglu data rhwng y 22 o awdurdodau lleol. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud ei fod yn bwriadu ceisio symleiddio gymaint â phosibl ar waith casglu data er mwyn cael eglurder.

---

[16] CYPE(4) 15-15 – Papur 1
[17] Tystiolaeth lafar, 20 Mai 2015, Cofnod y Trafodion

67. Amlinellodd y Gweinidog gamau a gymerwyd i wella'r gwaith casglu data, gan gynnwys gofyn i'r consortia rhanbarthol ddatblygu templedi data perfformiad sy'n cynnwys data ar absenoldeb oherwydd salwch; ac ailadroddodd yr ymrwymiad i symud tuag at adroddiadau blynyddol ar ddata am absenoldeb salwch ar lefel yr awdurdodau lleol. Dywedodd y Gweinidog:

> "what I'm attempting to put in place is, first of all, better collection of better data, but then immediate and regularised use of those data to keep on interrogating the question of how we can improve the situation for the professional and, of course, for the young person."[18]

68. Ychwanegodd y Gweinidog:

> "…as I mentioned, there is that variation across the 22 local authorities. That has to stop. If we're going to better understand and work with the trade unions and work with local authorities to try and further drive down the absence levels, we have to understand exactly what the absence levels consist of.
>
> "It is worth saying that the number of sick days taken by teachers in Wales is coming down year on year.
>
> "…we need to improve the reporting, and those performance data templates for headteachers that I was talking about should break open that problem around the categorisation of absence."

69. Cyfeiriodd y Gweinidog at y Canllawiau newydd ynghylch rheoli absenoldeb yr oedd Llywodraeth Cymru yn eu datblygu, yr oedd y Gweinidog yn gobeithio y bydden nhw'n becyn o ganllawiau gweddnewidiol, ac a fyddai'n egluro beth yn union sy'n cael ei ofyn a chan bwy o ran adroddiadau ar ddata a holi'r data hwnnw.

Effaith y Canllawiau newydd

70. Mae'r Canllawiau newydd yn nodi rolau'r rhanddeiliaid wrth gasglu data mewn nifer o feysydd allweddol, gan gynnwys y canlynol:

- dylai cyrff llywodraethu gael data meincnodi a data cywir, wedi'u casglu ar y lefel leol;
- dylai'r pennaeth gydweithio â darparwr adnoddau dynol yr awdurdod lleol i ddadansoddi'r data ar absenoldeb oherwydd salwch er mwyn

[18] Tystiolaeth lafar, 20 Mai 2015 Cofnod y Trafodion

gwneud penderfyniadau gwybodus, gan roi sylw penodol i dueddiadau;

- dylai'r awdurdod lleol gasglu a lledaenu data unigol a data wedi'i feincnodi;
- mae'r consortia rhanbarthol wrthi'n datblygu templed data perfformiad i'w ddefnyddio gan benaethiaid i roi adroddiadau i lywodraethwyr am faterion absenoldeb.

71. Mae'r Canllawiau newydd hefyd yn nodi y dylai'r ysgolion ystyried datblygu targedau sydd wedi'u seilio ar y data y maen nhw wedi'i gasglu ynghyd â data oddi wrth ysgolion tebyg.

72. Dywedodd Estyn fod y canllawiau'n ailadrodd pwysigrwydd monitro a dadansoddi data ar absenoldebau, ond y gallai'r canllawiau arwain ysgolion i gredu bod gofyn iddyn nhw osod targed yn eu cynllun datblygu ysgol ynglŷn ag absenoldebau yn y gweithlu. Er y gallai hyn fod yn darged pwysig i rai ysgolion, byddai'n amhriodol mewn ysgolion lle mae presenoldeb y staff yn dda a'r rheolaeth dros absenoldebau'n llwyddiannus.

73. O ran polisïau a gweithdrefnau rheoli absenoldeb, dywedodd Estyn fod y canllawiau'n egluro'r gofynion ac yn rhoi sylfaen gadarnach y gall arweinwyr ysgolion adeiladu arni.

Barn y Pwyllgor

74. Mae'r Pwyllgor yn pryderu ynglŷn â'r diffyg data cymaradwy ystyrlon, cyson ynghylch absenoldeb athrawon. Mae'r Pwyllgor yn nodi mai darparu ar gyfer data mwy cyson a chymaradwy yw diben y Canllawiau newydd. Fe ddylai hyn helpu i feithrin dealltwriaeth o'r rhesymau dros absenoldeb athrawon, a all helpu wedyn i leihau absenoldeb oherwydd salwch a'r angen am drefniadau cyflenwi.

75. Er hynny, fel y nodwyd eisoes, mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn rhy fuan i ddweud a fydd y canllawiau'n cyflawni'r diben a nodir ynddyn nhw ac yn cael effaith gadarnhaol ar reoli absenoldeb athrawon yn effeithiol.

76. Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu bod y dystiolaeth a gafwyd yn awgrymu'n llethol fod yna system ar gyfer cyflenwi, gan gynnwys casglu data, sy'n rhy gymhleth. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod y Canllawiau newydd wedi'u cyflwyno, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau ychwanegol i helpu i symleiddio'r system.

77. Roedd y defnydd cynyddol ar athrawon cyflenwi mewn ardaloedd difreintiedig yn bryder mawr i'r Pwyllgor. Er bod tystiolaeth wedi'i chyflwyno a oedd yn awgrymu cysylltiad ag absenoldeb salwch sy'n gysylltiedig â straen, doedd dim data clir i ategu hyn. Mae'r Pwyllgor yn nodi y bydd y Canllawiau newydd yn helpu yn y broses o gasglu data ystyrlon, ond mae'n credu y dylai Llywodraeth Cymru wneud ymchwil ar unwaith i ganfod (a) a oes mwy o ddefnydd ar athrawon cyflenwi mewn ardaloedd difreintiedig, a (b) beth yw achos unrhyw gynnydd.

78. Roedd y Pwyllgor yn cytuno â nodau'r Canllawiau newydd ynghylch defnydd cynyddol ar ddata meincnodi, gan gynnwys casglu data meincnodi ar lefel leol, a sicrhau bod yr ysgolion yn eu meincnodi eu hunain yn erbyn ei gilydd ac yn lleihau absenoldeb a'r angen am athrawon cyflenwi.

79. Mae'r Canllawiau newydd hefyd yn nodi y dylai'r ysgolion ystyried datblygu targedau ar gyfer monitro absenoldeb sydd wedi'u seilio ar y data y maen nhw wedi'i gasglu ynghyd â data oddi wrth ysgolion tebyg, ac mae'r Pwyllgor yn credu y dylai Llywodraeth Cymru fynd â hyn ymhellach a gweithio gyda'r ysgolion i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Casgliad 2: Mae'r Pwyllgor yn nodi mai darparu ar gyfer data mwy cyson a chymaradwy yw bwriad y Canllawiau newydd. Fe ddylai hyn helpu i feithrin dealltwriaeth o'r rhesymau dros absenoldeb athrawon, a all helpu wedyn i leihau absenoldeb oherwydd salwch a'r angen am athrawon cyflenwi.

Argymhelliad 4: Er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod y Canllawiau newydd wedi'u cyflwyno, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau ychwanegol i helpu i symleiddio'r system ar gyfer cyflenwi.

Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru wneud ymchwil ar unwaith i ganfod (a) a oes mwy o ddefnydd ar athrawon cyflenwi mewn ardaloedd difreintiedig, a (b) achosion unrhyw gynnydd.

Argymhelliad 6: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r ysgolion i sicrhau eu bod yn datblygu targedau ar gyfer monitro absenoldeb, fel y nodir yn y Canllawiau newydd, sydd wedi'u seilio ar y data y maen nhw'n ei gasglu ac ar ddata o ysgolion tebyg.

Athrawon Newydd Gymhwyso

80. Clywodd y Pwyllgor nifer o bryderon ynglŷn ag Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) sy'n gweithio fel athrawon cyflenwi. Roedd y pryderon hyn yn canolbwyntio ar anhawster gweithio tuag at gyrraedd Safonau Athrawon wrth eu Gwaith, a darparu DPP priodol. Ymdrinnir â materion ynglŷn â datblygu proffesiynol parhaus yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

81. Amcangyfrifwyd mai Athrawon Newydd Gymhwyso yw rhyw 30 y cant o'r athrawon cyflenwi, sy'n cyfateb i ryw 1,500 o'r athrawon hyn. Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) fod dros 80 y cant o'r Athrawon Newydd Gymhwyso sy'n gweithio tuag at Safonau Athrawon wrth eu Gwaith ar gontractau cyfnod penodol neu gontractau cyflenwi.

82. Roedd barn glir ymysg nifer o'r rhanddeiliaid bod gwaith fel athro cyflenwi yn ei gwneud yn anodd i Athrawon Newydd Gymhwyso fodloni Safonau Athrawon wrth eu Gwaith. Cadarnhaodd CGA yn eu tystiolaeth lafar fod y trefniadau ymsefydlu ar gyfer safonau athrawon wrth eu gwaith wedi newid ym mis Medi 2012, ac mai dyna'r cyfle cyntaf lle y gallai athro cyflenwi weithio tuag at y safonau hynny.[19]

83. Aeth CGA ymlaen i gadarnhau bod 2,120 o bobl wedi dechrau'r broses ymsefydlu ers hynny ac wedi'i chwblhau. O'r rhain, dim ond 3.8 y cant oedd wedi gwneud hynny drwy ddilyn llwybr athro cyflenwi yn unig. Dywedodd CGA:

> "The bottom line, and the challenge for those people, is to undertake work that actually counts towards those practising teacher standards, because very often the work they're being called into schools to do is of a cover, supervisory nature."[20]

84. Clywodd y Pwyllgor fod yna sefyllfaoedd lle na allech chi, fel athro cyflenwi, ymgymryd â gwaith penodol na dangos eich bod wedi bodloni'ch safonau proffesiynol. Un enghraifft amlwg o hyn oedd bod athrawon cyflenwi'n methu mynd ar drip ysgol, ond bod angen i Athrawon Newydd Gymhwyso fynd ar drip ysgol i ddangos y safon benodol honno.

85. Yn eu tystiolaeth lafar nhw, amcangyfrifodd yr ATL fod dros 20 y cant o Athrawon Newydd Gymhwyso yn gadael y proffesiwn addysgu, oherwydd yr anawsterau penodol yr oedden nhw'n eu hwynebu. Tynnodd yr ATL sylw at anhawster posibl arall i Athrawon Newydd Gymhwyso, sef wrth iddyn nhw

[19] Tystiolaeth lafar, 6 Mai 2015, Cofnod y Trafodion
[20] Ibid

fynd drwy eu blwyddyn ANG a bodloni'r gofynion, fod rhaid i bob un o'u sesiynau addysgu fod yn sesiwn hanner diwrnod o leiaf. Er hynny, dim ond gwersi ad hoc sy'n cael eu rhoi i lawer o Athrawon Newydd Gymhwyso mewn gwirionedd, nad ydyn nhw'n cyfrif fel amser tuag at eu blwyddyn ANG.

86. Yn eu hymateb ysgrifenedig nhw, rhoddodd yr NASUWT ffigurau o arolwg a gynhaliwyd ym mis Mawrth a mis Ebrill 2014 ar brofiadau athrawon cyflenwi ledled Cymru a Lloegr. Yn yr arolwg hwnnw, dywedodd 82% o'r Athrawon Newydd Gymhwyso nad oedden nhw wedi cael y lefel briodol o gymorth ymsefydlu y mae ganddyn nhw hawl i'w gael, ac o'r rhai a oedd wedi cymhwyso yn y ddwy flynedd diwethaf, dywedodd 70% nad oedden nhw wedi cael y lefelau cymorth priodol.

87. Awgrymodd CGA y gallai awdurdodau lleol neu ysgolion mewn trefniant clwstwr gyflogi Athrawon Newydd Gymhwyso i weithredu fel athrawon cyflenwi. Yn eu tystiolaeth lafar, dywedodd y Cyngor:

> "…there would seem to be an opportunity to appoint NQTs on a more permanent basis to cover a cluster of schools. You see it in other industries: you see it in banking, you see it with doctors and you see it with pharmacists, for example. They could be appointed, maybe on a two-year contract or a three-year contract, specifically to cover a bunch of schools. What you see there is that you get continuity in the pupil learning. You can also then start to look at arrangements in terms of CPD for those people and other opportunities in terms of reasonable rates of pay as well."[21]

88. Mae'r Gweinidog wedi rhoi tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i'r Pwyllgor ynglŷn â darpariaeth DPP ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso a sut y gall hyn gael ei gwella neu ei chyflwyno'n fwy effeithiol. Trafodir hyn yn yr adran berthnasol o'r adroddiad hwn sy'n ymdrin â DPP. Yn anffodus, ni roddodd y Gweinidog dystiolaeth benodol neu uniongyrchol ynglŷn â'r materion a nodwyd gan y rhanddeiliaid ynghylch defnyddio Athrawon Newydd Gymhwyso fel athrawon cyflenwi, a'r anawsterau y gall hyn eu creu o ran cyrraedd safonau proffesiynol athrawon.

89. O'i holi am golled bosibl dros 20 y cant o Athrawon Newydd Gymhwyso, oherwydd diffyg cefnogaeth, dywedodd y Gweinidog fod y gweithlu o

[21] Tystiolaeth lafar, 6 Mai 2015, Cofnod y Trafodion

athrawon cyflenwi sydd newydd gymhwyso yn weithlu yr oedd arno angen cymorth a darpariaeth bwrpasol.[22] Aeth ymlaen i ddweud:

> "As Furlong is developed, we will begin to see the rise of—. I'm still not clear what we should call these schools, but the idea of the training school, which will then act as a hub for professional development within a cluster of schools, and all of this being co-ordinated by the consortia, of course. So, there should be a much more 'handleable' system in terms of making sure that, for an NQT who's in the supply system at the moment, it doesn't mean that they're in the doldrums, but that they have a switched-on schools network, which is very aware of its duties to CPD, and for that group of professionals as much as any other."

90. Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd y Gweinidog hefyd fod angen i athrawon cyflenwi, ac yn enwedig Athrawon Newydd Gymhwyso, gael eu gweld yn gymaint rhan o'r gweithlu ag unrhyw athro arall. Ychwanegodd:

> "…they are 100 per cent part of the professional teaching workforce in Wales, and the workforce council, I think, will be critical in terms of making sure that they have a level playing field in terms of provision, access, opportunity and expectation."[23]

Effaith y Canllawiau newydd

91. Nid yw'r Canllawiau ynghylch Rheoli Presenoldeb Gweithlu Ysgolion yn Effeithiol yn gwneud darpariaeth benodol ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso. Er hynny, mae'r canllawiau'n dweud mai contract am gyfnod penodol fydd yr opsiwn mwyaf priodol fel arfer i lenwi bwlch aelod staff sy'n absennol pan fo modd rhag-weld cyfnod yr absenoldeb, megis absenoldeb mamolaeth neu secondiad, Mae'r canllawiau'n dweud:

> "Bydd athrawon sy'n cael eu cyflogi ar gontractau cyfnod penodol o dymor neu fwy yn ddarostyngedig i Reoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011 ac felly bydd y pennaeth yn sicrhau y rheolir perfformiad yn briodol, gan roi sicrwydd bod y llanw o ansawdd uchel. Bydd athrawon newydd gymhwyso sy'n cael eu cyflogi yn y ffordd hon hefyd yn cael y cyfle i gwblhau rhannau sylweddol o'u cyfnod ymsefydlu yn yr un ysgol."

[22] Tystiolaeth lafar, 20 Mai 2015, Cofnod y Trafodion
[23] Ibid

Barn y Pwyllgor

92. Mae'r Pwyllgor yn eithriadol o bryderus o glywed tystiolaeth bod y diffyg cymorth ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso yn arwain at ganran mor uchel yn ymadael â'r proffesiwn. Ymdrinnir â'r materion ynglŷn â DPP yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, ond mae'n amlwg bod yna faterion ynglŷn â natur eu cyflogaeth y mae angen rhoi sylw iddyn nhw ar fyrder.

93. Mae'r Pwyllgor yn credu bod rhaid cael mynediad digonol/gwell i gymorth i athrawon cyflenwi sy'n Athrawon Newydd Gymhwyso er mwyn iddyn nhw allu dangos yn llawn eu bod wedi cyrraedd safonau athro proffesiynol.

94. Mae awgrym y CGA y gallai awdurdodau lleol neu ysgolion gyflogi Athrawon Newydd Gymhwyso i weithredu fel athrawon cyflenwi mewn trefniadau clwstwr yn cyd-fynd ag argymhelliad cyffredinol y Pwyllgor ynghylch y system ar gyfer athrawon cyflenwi yn y dyfodol. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y bydd y Cytundeb Fframwaith Cenedlaethol yn rhedeg tan 2018, ond hoffem annog Llywodraeth Cymru i ystyried y goblygiadau ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso ar fyrder, ac asesu a oes modd gwneud unrhyw newidiadau i'r ffordd y maen nhw'n cael eu defnyddio fel athrawon cyflenwi, er mwyn eu helpu i ddangos eu bod wedi cyrraedd safonau athro proffesiynol.

Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar fyrder i ystyried y goblygiadau ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso sy'n cael eu defnyddio fel athrawon cyflenwi, er mwyn iddyn nhw allu dangos yn llawn eu bod wedi cyrraedd safonau athro proffesiynol.

7. Goruchwyliaeth yr Awdurdodau Lleol a'r Consortia Rhanbarthol dros Waith Athrawon Cyflenwi

95. Cafodd y Pwyllgor amrywiaeth o dystiolaeth ynghylch y rôl y gallai neu y dylai'r awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol ei chwarae wrth oruchwylio'r defnydd ar athrawon cyflenwi. Er bod rhai safbwyntiau'n amrywio, roedd yna gytundeb cyffredinol bod y trefniadau presennol yn aneffeithiol.

96. Awgrymodd nifer o athrawon cyflenwi ac undebau athrawon nad oedd fawr ddim goruchwyliaeth gan yr awdurdodau lleol neu'r consortia rhanbarthol dros ddefnyddio athrawon cyflenwi. Dywedodd Estyn fod rôl yr awdurdodau lleol yn amrywio, ond yn gyffredinol ei bod yn annigonol a bod y trefniadau presennol yn aneffeithiol.

97. Yn eu hymateb ysgrifenedig, dywedodd PCYDDS nad oedd gan yr awdurdodau lleol a'r consortia ddigon o oruchwyliaeth dros ddefnyddio athrawon cyflenwi.[24] Dywedodd PCYDDS fod diffyg dealltwriaeth wedi bod ynglŷn â'r rôl ac nad oes rhwymedigaeth wedi bod ac ychydig yn unig o bolisi i sicrhau bod yr awdurdodau lleol neu'r consortia yn chwarae rhan yn hyn o beth.

98. Gan nad yw'r consortia rhanbarthol yn gweithredu fel cyflogwr, dywedodd yr NASUWT na ddylen nhw chwarae rôl. Er hynny, awgrymodd yr undeb y dylai fod yna rôl i'r awdurdodau lleol, yn rhinwedd eu swydd fel cyflogwr cyffredinol staff yr ysgolion. Mae'r NUT yn dweud bod yr awdurdodau lleol mewn llawer o ardaloedd wedi cefnu ar y sefyllfa, gan ddirprwyo'r cyfrifoldeb i'r ysgolion.

99. Dywedodd yr ASCL mai'r berthynas rhwng arweinydd yr ysgol a'r darparwr gwasanaethau yw'r un sylfaenol a hanfodol. Dywedodd y ddau awdurdod lleol a ymatebodd mai mater i'r ysgolion unigol oedd goruchwylio staff cyflenwi ac nad oedd yn rhan o fusnes yr awdurdodau lleol.

100. Dywedodd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig ei bod yn anodd rhag-weld sut y gall staff awdurdodau lleol ddatblygu eu goruchwyliaeth ymhellach ac eithrio i ofyn am adroddiadau mwy sylweddol ar absenoldeb staff. Yn yr un modd, argymhellodd Estyn y dylai'r awdurdodau lleol roi data cymaradwy am gyfraddau absenoldeb athrawon i'r ysgolion a gofyn am adborth a chofnodi ansawdd staff cyflenwi.

[24] Tystiolaeth lafar, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, ST18

101. Mae Teaching Personnel yn dweud y dylai ffocws yr awdurdodau lleol a'r consortia gael ei anelu at sicrhau bod yr ysgolion yn asesu ansawdd y gwasanaeth a ddefnyddir, gallu'r staff cyflenwi a lefel y cymorth a roddir, mewn modd priodol.

102. Dywedodd New Directions fod gan yr awdurdodau lleol ddirnadaeth ynglŷn ag athrawon cyflenwi sy'n cael ei thrafod yng Nghytundeb Cymru Gyfan. Nid yw'r consortia'n chwarae rhan ond fe allen nhw gymryd yr awenau drwy gynnig cyrsiau am ddim yn ystod gwyliau ysgol.

Y Cytundeb Fframwaith Cenedlaethol a chanllawiau i'r ysgolion a'r consortia

103. Mae pob un o'r 22 o awdurdodau lleol wedi ymrwymo i ddefnyddio'r Cytundebau Fframwaith y mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi'u sefydlu. Gan hynny, byddai'r awdurdodau lleol yn disgwyl i'w hysgolion ddefnyddio'r fframwaith i ateb eu hangen am athrawon cyflenwi. O ran Cytundeb Fframwaith Cymru Gyfan, dywedodd swyddog y Gweinidog:

> "The local authorities have a role in relation in this. Obviously, the schools manage the direct employment, but local authorities also have a responsibility in relation to employment and it is the local authorities that have signed up to this procurement by the national procurement service. So, it's a responsibility on them to be advising their schools as to how they best cover absence, and how they get the best quality teachers and make sure that that's sustainable."[25]

104. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Gweinidog fod y model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol – Adfywio Gwaith Rheoli Pobl mewn Ysgolion yn nodi'r gofyniad bod rhaid i gynlluniau busnes y consortia rhanbarthol fanylu ar sut y caiff cymorth adnoddau dynol yr awdurdodau lleol ei ddarparu i'r ysgolion.[26] Mae'n nodi'r gofyniad bod rhaid i ysgolion a chyrff llywodraethu gymryd rhan mewn rhaglenni hyfforddi a datblygu i'w helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau ynglŷn â rheoli pobl.

105. Cyfeiriodd y Gweinidog hefyd at y Canllawiau ynghylch Rheoli Presenoldeb Gweithlu Ysgolion yn Effeithiol, y dywedodd y bydden nhw'n nodi rôl a chyfrifoldebau'r awdurdodau lleol a'r consortia o ran gwaith cyflenwi effeithiol ar gyfer gwersi, athrawon cyflenwi ac asiantaethau cyflenwi. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd swyddog y Gweinidog:

---

[25] Tystiolaeth lafar, 20 Mai 2015, Cofnod y Trafodion
[26] Model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol - adfywio gwaith rheoli pobl mewn ysgolion

> "it is the responsibility of the local authorities to give HR advice in relation to the management of absence, and then it is for the school to implement. It will be something that we'll spell out in relation to the absence guidance that's coming out. We know that where absence management is dealt with effectively, it can help and it can reduce it and, in certain areas, there is effective management at the moment. But this guidance will try to create that parity across the piece, so that people understand what the general rules are in relation to absence and how they manage it..."[27]

Effaith y Canllawiau newydd

106. Mae'r Canllawiau newydd yn nodi rolau a chyfrifoldebau'r awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol, a sut mae'r rhain yn cydweddu â'r system gyffredinol. O ran athrawon cyflenwi, mae'r Canllawiau newydd yn awgrymu y dylai adrannau adnoddau dynol yr awdurdodau lleol gyfrannu at y canlynol:

- cloriannu'r trefniadau ar gyfer rheoli cyllidebau cyflenwi, e.e. cronfa gydfuddiannol yr awdurdod lleol neu brynu yswiriant absenoldeb preifat, er mwyn sicrhau gwerth am arian i'r ysgol, ac i ysgolion ar draws yr awdurdod lleol;
- sicrhau bod yna ddull cydweithredol rhwng cydweithwyr yn yr adrannau caffael ac addysg wrth negodi a monitro cytundebau'r defnyddwyr unigol rhwng yr awdurdod lleol a'r darparwr a ffefrir o dan delerau'r Cytundeb Fframwaith;
- adolygu trefniadau fframwaith y contract gydag asiantaethau cyflenwi eraill i sicrhau gwerth am arian ac edrych ar gyfleoedd i sicrhau arbedion a/neu wasanaeth gwell i'r ysgolion.

107. Mae'r Canllawiau hefyd yn awgrymu bod disgwyl i'r consortia rhanbarthol ddefnyddio data ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys gwybodaeth yr ysgol am absenoldebau yn y gweithlu, i fwydo mentrau gwella'r ysgolion, ond hefyd i ystyried effaith strategaethau gwella ysgolion ar faint o athrawon cyflenwi a ddefnyddir gan yr ysgolion a'r perygl dilynol y mae hynny'n ei greu ar gyfer ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

108. Mae'r Canllawiau newydd yn nodi y dylai asiantaethau cyflenwi gyfarfod â'r awdurdodau lleol yn rheolaidd i drafod y contract a darparu data mesuradwy megis defnydd yr ysgolion unigol, gwariant, y rhesymau dros gyflenwi a chyfraddau boddhad.

---

[27] Tystiolaeth lafar, 20 Mai 2015, Cofnod y Trafodion

109. Yn eu hymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor ar y Canllawiau, mae Estyn yn dweud “there is significant emphasis on the expectation for schools and local authorities to monitor expenditure, frequency and amount of absence and the quality and cost of supply staff contracts, there is little focus on monitoring the quality of teaching and learning during staff absence and its impact on pupil standards”.

Barn y Pwyllgor

110. Roedd yn glir o'r dystiolaeth a gafwyd bod cytundeb cyffredinol ymysg y rhanddeiliaid nad oedd gan yr awdurdodau lleol a’r consortia fawr ddim goruchwyliaeth dros defnyddio athrawon cyflenwi. Roedd y Pwyllgor yn pryderu’n arbennig ynglŷn â gosodiad Estyn bod rôl yr awdurdodau lleol yn gyffredinol yn annigonol a bod y trefniadau presennol yn aneffeithiol.

111. Mae'r Pwyllgor yn cytuno bod diffyg dealltwriaeth wedi bod ynglŷn â rôl yr awdurdodau lleol a’r consortia rhanbarthol, sydd wedi’i waethygu gan ddiffyg polisi i sicrhau bod yr awdurdodau lleol neu’r consortia yn chwarae rhan yn hyn o beth.

112. Wrth ystyried y Canllawiau drafft ar Reoli Presenoldeb Gweithlu Ysgolion yn Effeithiol, roedd y Pwyllgor yn gobeithio’n arbennig y gallai'r canllawiau arfaethedig ddarparu eglurder a chyfeiriad ynglŷn â goruchwyliaeth yr awdurdodau lleol – sef barn a fynegwyd i’r Gweinidog cyn i’r Canllawiau gael eu cyhoeddi.

113. Er bod y Pwyllgor yn nodi bod y Canllawiau newydd yn ceisio nodi rôl a chyfrifoldebau’r awdurdodau lleol a'r consortia ynghylch defnyddio athrawon cyflenwi, mae’r Pwyllgor yn dal o’r farn nad yw'r Canllawiau’n awgrymu rôl glir:

- i’r awdurdodau lleol wrth fonitro sut mae’r ysgolion yn rhoi eu polisïau ar reoli presenoldeb ar waith; neu
- i’r awdurdodau lleol neu’r consortia wrth oruchwylio sut mae'r ysgolion yn defnyddio athrawon cyflenwi.

114. Er mwyn sicrhau bod athrawon cyflenwi’n cael eu defnyddio yn y modd mwyaf effeithlon ac effeithiol, mae'r Pwyllgor yn credu bod rhaid cael cyfeiriad clir ynglŷn â rôl yr awdurdodau lleol a’r consortia. Er bod hyn yn berthnasol ar draws pob agwedd ar waith athrawon cyflenwi, mae'n arbennig o bwysig o ran ansawdd yr addysgu a'r effaith y mae hynny’n ei chael ar safonau yn yr ysgolion.

Argymhelliad 8: Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyfeiriad clir yn cael ei roi i'r awdurdodau lleol a'r consortia ar eu rôl ynglŷn â defnyddio athrawon cyflenwi. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i ansawdd yr addysgu a'r effaith y mae hynny'n ei chael ar safonau yn yr ysgolion. Efallai yr hoffai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r Canllawiau ynghylch Rheoli Presenoldeb Gweithlu Ysgolion yn Effeithiol i helpu i gyflawni hyn.

8. Deilliannau ac ymddygiad disgyblion

115. Ychydig iawn o dystiolaeth bendant a gafwyd gan weithwyr proffesiynol bod defnyddio athrawon cyflenwi'n cael effaith negyddol ar y deilliannau i'r disgyblion, er bod arolwg y Pwyllgor o bobl ifanc wedi gweld bod 80 y cant o'r rhai a ymatebodd yn credu eu bod wedi dysgu llai gydag athro cyflenwi na chyda'u hathro dosbarth arferol. O ran y cwestiwn hwn, cafwyd 159 o sylwadau bod disgyblion yn dysgu llai gan nad oedden nhw'n cymryd y wers o ddifrif a'u bod yn chwarae yn ystod y wers. Dywedodd 27 o ymatebion eraill fod lefel y dysgu yn dibynnu ar allu'r athro cyflenwi i ddisgyblu a rheoli'r dosbarth.

Cwestiwn wyth: Faint wyt ti'n meddwl dy fod yn ei ddysgu pan fydd athro cyflenwi yn dy ddysgu?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 864

- Dysgu mwy na gydag athro arferol: **3.7% (32)**
- Yr un faint a gydag athro arferol: **15.7% (136)**
- Dysgu llai na gydag athro arferol: **80.5% (696)**



Ffynhonnell: Arolwg y Pwyllgor o'r defnydd o Athrawon Cyflenwi

116. Dywedodd Estyn fod yna "difficulty of allocating a specific cause to a particular effect", gan awgrymu, er nad oedd cynnydd disgyblion mewn gwersi unigol mor gyflym ag y dylai fod, nad oedd hynny o reidrwydd yn creu effaith gyffredinol ar y deilliannau i'r disgyblion.

117. Awgrymodd yr ATL y gall unrhyw ddiffyg parhad ymysg athrawon gynhyrfu'r disgyblion, beth bynnag fo ansawdd yr athrawon cyflenwi, a lle mae athrawon yn cael eu defnyddio fel goruchwylwyr cyflenwi, y gallai hynny gael effaith ar safonau.

118. Yn eu tystiolaeth nhw, mae PCYDDS yn dweud bod y ffaith bod athrawon cyflenwi'n cael eu defnyddio'n fwy cyffredinol mewn ardaloedd difreintiedig yn golygu nad oedd gan yr ysgolion fawr o ddewis o ran ansawdd yr athrawon cyflenwi yr oedden nhw'n eu defnyddio, a oedd wedyn yn gosod pwysau ychwanegol ar gyrhaeddiad disgyblion difreintiedig. Er hynny, dywedodd PCYDDS fod yna gwestiynau ynghylch dod o hyd i ddata dilys ar athrawon cyflenwi yn hytrach na dibynnu ar dystiolaeth hanesiol.

119. Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd y Gweinidog mai prin oedd y data yn y maes hwn ac os oes yna lefel anghymesur o absenoldeb mewn ysgol, yna roedd hynny'n bryder.[28] Awgrymodd swyddog y Gweinidog y gallai unrhyw gynnydd o ran defnyddio athrawon cyflenwi mewn ardaloedd difreintiedig fod yn gysylltiedig â recriwtio a allai fod yn arbennig o anodd yn yr ardaloedd hyn.

120. Dywedodd y Gweinidog hefyd yn ystod ei dystiolaeth lafar ei fod yn fodlon gwrando ar awgrymiadau ynglŷn ag ymchwil ar a oedd defnyddio athrawon cyflenwi'n cael effaith anghymesur ar y deilliannau i'r disgyblion.[29]

121. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth i awgrymu bod defnyddio athrawon cyflenwi'n cael effaith negyddol ar ymddygiad disgyblion. Yn 2013, adroddodd Estyn y byddai goruchwylwyr cyflenwi neu athrawon cyflenwi yn aml yn tueddu i ofyn i'r disgyblion ysgrifennu ar ddalennau papur yn hytrach nag yn eu llyfrau gwaith arferol ac na fyddai'r gwaith, ran amlaf, yn cael ei farcio na'i ddilyn i fyny, gan arwain at "weithgaredd llenwi amser … yn hytrach na dysgu go iawn".

122. Dywedodd adroddiad Estyn:

> O ganlyniad i'r gwaith hwn nad yw'n gofyn digon, mae dysgwyr yn dangos ymddygiad sy'n fwy heriol. Maent yn fwy tebygol o darfu ar

[28] Tystiolaeth lafar, 20 Mai 2015, Cofnod y Trafodion
[29] Ibid

lefel isel, a chaiff hyn effaith negyddol bellach ar eu cyflawniad a'u cynnydd mewn gwersi. Dywed bron pob un o'r disgyblion a gymerodd ran yn ei harolwg nad ydynt yn ymddwyn gystal mewn dosbarth gydag athro cyflenwi neu oruchwyliwr llanw o'i gymharu â'u hathro arferol.'[30]

123. Canfu arolwg y Pwyllgor o bobl ifanc hefyd fod 80 y cant o'r rhai a ymatebodd yn credu bod disgyblion yn ymddwyn yn waeth pan gânt eu haddysgu gan athro cyflenwi.

Cwestiwn 10: Wyt ti'n meddwl bod y disgyblion yn y dosbarth yn ymddwyn yr un peth pan fydd ganddynt athro cyflenwi?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 863

- Ymddwyn yn well gydag athro cyflenwi: **2.0% (18)**
- Ymddwyn yr un peth gydag athro cyflenwi: **17.6% (152)**
- Ymddwyn yn waeth gydag athro cyflenwi: **80.3% (693)**



Ffynhonnell: Arolwg y Pwyllgor o'r defnydd o Athrawon Cyflenwi

Effaith y Canllawiau newydd

124. Er nad yw'r Canllawiau'n cynnwys mesurau penodol ynghylch deilliannau disgyblion, diben y Canllawiau yw helpu i sicrhau y gall absenoldeb gael ei reoli'n effeithiol, a sicrhau bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i gynnal parhad y dysgu. Mae'r Canllawiau ei hunain yn dweud bod "rheoli absenoldeb staff yn effeithiol yn hanfodol er mwyn sicrhau deilliannau cadarnhaol gan ddysgwyr".

[30] Effaith absenoldeb athrawon, Medi 2013

125. Gan hynny, mae'r Canllawiau yn eu crynswth yn anelu at sicrhau deilliannau cadarnhaol. Er hynny, fel yr amlinellwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, mae'n rhy fuan i ddweud pa effaith a gaiff y Canllawiau yn gyffredinol, neu'n benodol mewn perthynas â'r deilliannau ar gyfer y disgyblion.

126. Er hynny, yn eu hymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor ar y Canllawiau, mae Estyn yn dweud nad oes fawr ddim ffocws ar fonitro ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn ystod absenoldeb staff a'i heffaith ar safonau'r disgyblion.

Barn y Pwyllgor

127. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod tystiolaeth oddi wrth Estyn, a'r ymatebion i'r arolwg, yn dangos bod defnyddio athrawon cyflenwi'n creu effaith negyddol ar ymddygiad disgyblion, a bod hyn yn creu effaith negyddol bellach ar eu cyrhaeddiad a'u cynnydd mewn gwersi. Er hynny, mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi awgrym Estyn er nad yw cynnydd y disgyblion mewn gwersi unigol mor gyflym ag y dylai fod, nad oedd hyn o reidrwydd yn cael effaith gyffredinol ar y deilliannau i'r disgyblion.

128. Mae'r Pwyllgor yn cytuno ag awgrym ATL Cymru y gall unrhyw ddiffyg parhad ymysg athrawon gynhyrfu'r disgyblion, beth bynnag fo ansawdd athrawon cyflenwi. Er hynny, mae'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad y gallai defnyddio athrawon fel goruchwylwyr gael mwy o effaith negyddol ar safonau a chanlyniadau.

129. Roedd y Pwyllgor yn pryderu hefyd fod rhywfaint o'r dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod yr ymchwiliad yn awgrymu bod athrawon cyflenwi'n cael eu defnyddio'n fwy cyffredinol mewn ardaloedd difreintiedig. Er bod y Pwyllgor yn nodi bod diffyg data i ategu'r awgrym hwn, mae'n hanfodol na ddylai unrhyw gynnydd o ran defnyddio athrawon cyflenwi osod pwysau ychwanegol ar gyraeddiadau disgyblion difreintiedig.

130. Mae diffyg data dibynadwy, dilys yn y maes hwn yn ei gwneud yn anodd iawn asesu effaith yr addysgu ar y deilliannau i'r disgyblion yn fanwl-gywir, neu a yw'r effaith hon yn fwy mewn ardaloedd difreintiedig. Mae'r Pwyllgor yn credu y dylai gwaith ymchwil gael ei wneud i sicrhau dealltwriaeth o effeithiau gwaith athrawon cyflenwi ar y deilliannau i'r disgyblion, gan gynnwys yr effaith ar ymddygiad.

131. Mae'r Pwyllgor yn nodi mai helpu i sicrhau y gellir rheoli absenoldeb yn effeithiol yw diben y Canllawiau newydd, a sicrhau bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i gynnal parhad yn y dysgu gan anelu at sicrhau deilliannau

cadarnhaol i'r dysgwyr. Er hynny, mae'r Pwyllgor yn pryderu nad oes fawr ddim ffocws yn y Canllawiau ar fonitro ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn ystod absenoldeb staff a'i heffaith ar safonau'r disgyblion, ac mae'n credu y dylai'r awdurdodau lleol neu'r consortia rhanbarthol chwarae mwy o rôl yn hyn o beth.

Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil ar effeithiau gwaith athrawon cyflenwi ar y deilliannau i'r disgyblion, gan gyfeirio'n benodol at ardaloedd difreintiedig, a'r cysylltiad ag ymddygiad disgyblion.

Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Canllawiau ynghylch Rheoli Absenoldeb yn Effeithiol yn cynnwys mwy o rôl ar gyfer goruchwyliaeth gan yr awdurdodau lleol neu'r consortia rhanbarthol o ran defnyddio athrawon cyflenwi mewn perthynas ag ansawdd yr addysgu a'r effaith ar safonau.

9. Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

132. Darpariaeth DPP i athrawon cyflenwi yw un o'r prif bryderon a fynegwyd gan bron pob un o'r rhai a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor. Roedd y prif faterion a godwyd yn awgrymu nad oes fawr ddim mynediad i DPP ar gyfer athrawon cyflenwi a bod talu'r gost yn broblem fawr. Roedd hefyd yn amlwg nad yw'r DPP sydd ar gael i athrawon cyflenwi o reidrwydd yn adlewyrchu blaenoriaethau cyfredol Llywodraeth Cymru.

133. Clywodd y Pwyllgor gan nifer o staff mewn ysgolion ac athrawon cyflenwi nad oedd fawr ddim DPP ar gael iddyn nhw. Roedd y farn hon yn cael ei rhannu gan undebau athrawon. Dywedodd nifer o'r rhai a ymatebodd y dylai staff cyflenwi ar gontractau tymor hirach fod yn fwy abl i gael mynediad i'r DPP sy'n cael ei roi gan eu hysgol.

134. Nodwyd bod cost DPP yn un mater pwysig. Awgrymodd un athro cyflenwi na all staff cyflenwi fforddio talu am gyrsiau na cholli diwrnod o gyflog i ddilyn cwrs. Cydnabuwyd hyn hefyd gan Estyn, sy'n dweud yn eu hadroddiad nhw:

> "Mae'r rhan fwyaf [o athrawon cyflenwi] yn gallu trefnu eu hyfforddiant eu hunain neu fynychu cyrsiau a gynigir gan gwmnïau preifat, er y byddai hyn yn golygu colli cyflog diwrnod. Teimlant eu bod yn colli allan ar gyfleoedd sy'n cael eu cynnig i gydweithwyr â chontractau parhaol."[31]

135. Dywedodd Teaching Personnel ei bod hefyd yn angenrheidiol ystyried hyfforddiant fel cyfrifoldeb personol i'r staff cyflenwi bod angen iddyn nhw fod yn rhagweithiol. Er hynny, dywedodd un athro cyflenwi y byddai'n fodlon talu am hyfforddiant ond ei bod yn anodd dod o hyd i gyrsiau addas.

136. Dywedodd CGA mai eu profiad nhw oedd bod rhai asiantaethau'n darparu DPP, ond bod yna lawer nad oedden nhw'n ei ddarparu. Pwysleisiodd y Cyngor fod angen sicrhau 'more out of what we currently have because it's very clear that supply teachers do not get te same opportunities, CPD-wise, that substantive teachers do'. Pan ofynnwyd am y posibilrwydd o ddefnyddio dysgu ar-lein, aeth y Cyngor ymlaen i ddweud:

> "There are some things available at the moment, such as Hwb and Learning Wales, that I think are underutilised. So, I think there are

[31] Effaith Absenoldeb Athrawon, Medi 2013

> opportunities there to make these facilities that are there more readily available and known to supply teachers."[32]

137. Er bod rhywfaint o hyfforddiant yn cael ei gynnig gan asiantaethau, dywedodd yr NUT nad oedd yn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Adleisiwyd y farn hon gan UCAC a ddywedodd nad oedd yna hyfforddiant gwerth sôn amdano yn y Cyfnod Sylfaen na'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

138. Er eu bod yn cynnig DPP i'w hathrawon cyflenwi, yn eu tystiolaeth lafar nhw, dywedodd New Directions nad oes gorfodaeth ar athrawon cyflenwi i fod yn bresennol.[33]

139. Mae Estyn yn dweud bod hyfforddiant yn aml yn canolbwyntio ar ymddygiad herfeiddiol ac addysgu cyffredinol yn unig. Awgrymodd Estyn y gallai gwybodaeth athrawon o'r blaenoriaethau cenedlaethol ddirywio dros amser. Dywedodd Teaching Personnel a'r NUT hefyd ei bod yn anodd gweld sut y byddai athrawon cyflenwi'n elwa o'r Model Cenedlaethol o Ddysgu Proffesiynol.

140. Mae yna enghreifftiau lle mae ysgolion yn cynnwys athrawon cyflenwi yn eu DPP ysgol-gyfan, ond nid yw hyn yn ateb anghenion athrawon cyflenwi y mae arnyn nhw angen set wahanol o sgiliau er mwyn ennyn diddordeb disgyblion yn gyflym iawn er mwyn rhoi gwersi effeithiol iawn.

141. Awgrymodd yr ASCL y dylai hyfforddiant gael ei ddarparu gan asiantaethau fel cyflogwyr a dywedodd CGA fod o leiaf un asiantaeth yn darparu DPP llawn i'w gweithwyr. Er hynny, roedd Cyngor Dinas Abertawe yn amau a oedd hyfforddiant o'r fath o'r safon yr hoffai'r awdurdodau lleol neu Lywodraeth Cymru ei gweld.

142. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Gweinidog fod athrawon cyflenwi'n rhan arwyddocaol a phwysig o'r gweithlu athrawon yng Nghymru a bod angen sicrhau bod ganddyn nhw, fel pob athro, y sgiliau priodol i ddarparu gwaith addysgu o safon.[34] Aeth y Gweinidog ymlaen i awgrymu mai rhannu arferion proffesiynol, fel mewn llawer o broffesiynau eraill, oedd y dull mwyaf effeithiol o gefnogi a gwella arferion yn aml.

143. Dywedodd tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog hyn hefyd: "Mae'r Fargen Newydd i'r Gweithlu Addysg yn sicrhau bod gan bob ymarferwr

---

[32] Tystiolaeth lafar, 6 Mai 2015, Cofnod y Trafodion
[33] Ibid
[34] CYPE(4) 15-15 - Papur 1

addysg yng Nghymru, gan gynnwys athrawon cyflenwi, hawl i fanteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol o'r radd flaenaf er mwyn datblygu ei ymarfer gydol ei yrfa. Bydd gweithgareddau dysgu proffesiynol o fewn ysgolion yn ategu'r Fargen Newydd a bydd cyfleoedd dysgu hefyd ar gael drwy ddeunyddiau ac adnoddau dysgu proffesiynol ar-lein".

144. Awgrymodd y Gweinidog mai mater i Lywodraeth Cymru, gan gydweithio â New Directions oedd gweld beth all gael ei wneud o ran elfennau hanfodol hyfforddiant ac a allen nhw ddefnyddio dull dysgu cyfunol. O ran athrawon cyflenwi yn colli diwrnod o gyflog i ddilyn DPP, cadarnhaodd New Directions yn eu tystiolaeth ysgrifenedig nhw y byddai hyfforddiant yn ystod gwyliau ysgol yn helpu i ddatblygu athrawon cyflenwi, sut bynnag y câi ei ariannu.

145. Er bod y Gweinidog wedi mynegi rhywfaint o bryder ynghylch y ddarpariaeth DPP, dywedodd nad oedd hynny'n rhywbeth y gallai neu y dylai'r Llywodraeth ei gyfarwyddo ac y dylai gael ei arwain gan y proffesiwn.

146. Unwaith eto, er nad oedd o'r farn ei fod yn faes i Weinidogion Llywodraeth ymyrryd ynddo, dywedodd y Gweinidog y gallai rag-weld sefyllfa o draws-gymorthdaliadau lle byddai athrawon yn gwneud cyfraniadau ariannol i'r CGA i ganiatáu cymorth i'r rhai sydd â'r angen mwyaf, megis athrawon cyflenwi neu athrawon sy'n dychwelyd.

Technolegau newydd ar gyfer DPP a'r pasbort ar-lein

147. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig a llafar, mae'r Gweinidog wedi darparu manylion am bwysigrwydd technolegau newydd o ran helpu i ddarparu DPP, gan gadarnhau y byddai Llywodraeth Cymru'n dibynnu ar dechnoleg newydd i gyflawni "cyfran dda" o DPP yn y dyfodol.

148. Mewn Datganiad Ysgrifenedig ar y Fargen Newydd ar gyfer y Gweithlu Addysg, cyhoeddodd y Gweinidog y byddai CGA yn cymryd yr awenau ar ddatblygu Pasbort Dysgu Proffesiynol a fydd "yn sail i lwybrau gyrfa ymarferwyr ac yn eu helpu i nodi'r cyfleoedd dysgu mwyaf priodol, eu cofnodi a'u pwyso a mesur er mwyn iddynt allu parhau i ddatblygu a gwella eu harferion ym mhob cam o'u gyrfa".[35]

149. Esboniodd CGA fod gan Athrawon Newydd Gymhwyso bortffolio papur o'r blaen, a oedd yn cael ei gadw gan eu hysgol, ac felly aeth Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (fel yr oedd ar y pryd) ati i gyplysu'r portffolio â'r

[35] Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog ar y Fargen Newydd i'r Gweithlu Addysg (16.03.15)

gofrestr, o fis Medi 2014 ymlaen. Roedd hyn yn cynnwys athrawon cyflenwi. Mae'r gwaith hwn yn ehangu a bydd fersiwn cychwynnol y pasbort wedi'i sefydlu o fis Medi 2015 ymlaen a fersiwn wedi'i gwella o fis Medi 2016 ymlaen. Dywedodd CGA:

> "over the coming years, the usage of the passport will increase, but it is a good initiative, through the new deal, and it's a tremendous opportunity for people to record their CPD in one place and reflect on it. As I say, because of the transience of supply teachers, I think it will be probably more useful for supply teachers than any other group, actually."[36]

150. Mewn tystiolaeth lafar, cyfeiriodd y Gweinidog at y pasbort dysgu proffesiynol newydd a sut y gallai hyn helpu i wella parhad mewn dysgu proffesiynol. Dywedodd y Gweinidog:

> "…critically, that professional learning passport, which all professionals will be expected to keep up to snuff, will be a challenge that needs to be there in the system to ensure that the professional sets off and continues on a journey of professional development, whether they're in supply or whether they're in another situation. I think we need to think carefully about how the workforce council, in particular, is enabled to make that happen."[37]

151. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud y dylai athrawon cyflenwi sy'n cael trafferth o ran sicrhau DPP allu cysylltu â pherson penodedig yn y Cyngor a fyddai'n sicrhau bod eu pasbort proffesiynol o ansawdd dda ac yn datblygu o'r naill flwyddyn i'r llall.

152. Yn eu tystiolaeth nhw, o ran y pasbort arfaethedig, dywedodd PCYDDS:

> "…what we've seen—again, in other countries, where they've started this, and, to some extent, carried it on—is that the only time it actually continues is when it's part of a mandatory professional updating or professional review process. If there is no mandate to do it, it drifts and people won't continue with it."[38]

[36] Tystiolaeth lafar, 6 Mai 2015, Cofnod y Trafodion
[37] Tystiolaeth lafar, 20 Mai 2015, Cofnod y Trafodion
[38] Tystiolaeth lafar, 6 Mai 2015, Cofnod y Trafodion

DPP i Athrawon Newydd Gymhwyso

153. Mae'r adroddiad eisoes wedi amlygu rhai o'r materion sy'n wynebu Athrawon Newydd Gymhwyso sy'n gweithio fel athrawon cyflenwi. Mae dros 80 y cant o'r Athrawon Newydd Gymhwyso sy'n gweithio tuag at Safon Athrawon wrth eu Gwaith ar gontractau cyfnod penodol neu gontractau cyflenwi. Mae'n her iddyn nhw sicrhau gwaith sydd mewn gwirionedd yn cyfrif at y Safonau Athrawon wrth eu Gwaith.

154. Tynnodd adroddiad Estyn sylw at hyn fel problem, gan ddweud:

> "Mae athrawon cyflenwi sydd wedi ymuno â'r proffesiwn yn ddiweddar yn teimlo dan anfantais arbennig am nad ydynt bob amser yn gallu cwblhau eu cyfnod sefydlu ANG. Os cânt eu cyflogi am o leiaf 0.4 ar gyfer tymor cyfan, gallant ymuno â'r rhaglen meistri mewn addysg a gyflwynwyd yn ddiweddar. Er hynny, gall eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o bolisïau a blaenoriaethau cenedlaethol ddirywio dros gyfnod, gan ei gwneud yn anoddach iddynt sicrhau swydd barhaol. Teimla'r athrawon newydd gymhwyso hyn y byddant yn mynd yn llai cystadleuol yn y farchnad ar gyfer swyddi addysgu amser llawn."[39]

155. Awgrymodd un athro cyflenwi fod Athrawon Newydd Gymhwyso o dan anfantais, wrth weithio fel athrawon cyflenwi, gan fod y safonau ymsefydlu i'r rhai sy'n gweithio fel athrawon cyflenwi yr un fath ag athrawon parhaol (er enghraifft trafod cynnydd disgyblion yn rheolaidd gyda'r rhieni) sy'n anodd i athrawon cyflenwi. Gwelodd arolwg yr NASUWT ymysg athrawon cyflenwi nad oedd 82 y cant o Athrawon Newydd Gymhwyso wedi cael y lefel briodol o gymorth ymsefydlu. Dywedodd Estyn fod Athrawon Newydd Gymhwyso sy'n gweithio fel athrawon cyflenwi yn teimlo eu bod o dan anfantais gan eu bod yn methu gorffen eu cyfnod ymsefydlu. Er hynny, dywedodd CGA fod athrawon cyflenwi sy'n gweithio tuag at Safon Athrawon wrth eu Gwaith yn cael mentor allanol.

156. O ran Athrawon Newydd Gymhwyso, dywedodd y Gweinidog: "supply teachers, especially NQTs, need to be seen as much a part of the workforce as other teachers and the CGA will have a critical role in ensuring equality of access, opportunity and expectation". Dywedodd y Gweinidog hefyd:

> "As Furlong is developed, we will begin to see the rise of—. I'm still not clear what we should call these schools, but the idea of the training school, which will then act as a hub for professional

[39] Effaith Absenoldeb Athrawon, Medi 2013

development within a cluster of schools, and all of this being co-ordinated by the consortia, of course. So, there should be a much more 'handleable' system in terms of making sure that, for an NQT who's in the supply system at the moment, it doesn't mean that they're in the doldrums, but that they have a switched-on schools network, which is very aware of its duties to CPD, and for that group of professionals as much as any other."[40]

DPP mewn Cynlluniau Datblygu Ysgol

157. Mae'n ofynnol i gynlluniau datblygu ysgolion bennu darpariaeth yr ysgolion i fynd i'r afael â dysgu proffesiynol y staff gan gynnwys y rhai sydd yn yr ysgol dros dro. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch Cynlluniau Datblygu Ysgolion (Hydref 2014) yn dweud:

> "Rhaid i'r cynllun datblygu ysgol gynnwys manylion am ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer rhoi sylw i anghenion datblygiad proffesiynol yr holl staff, gan gynnwys datblygu arweinyddiaeth, mewn perthynas â chyflawni blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae'r darpariaethau hyn hefyd yn cynnwys staff a leolir dros dro yn yr ysgol a fydd yn cynnwys athrawon cyflenwi byrdymor a thymor hir. Bydd darpariaeth ysgolion ar gyfer cefnogi datblygiad proffesiynol yr ymarferwyr hyn yn naturiol yn adlewyrchu natur eu contract a'u swydd."[41]

158. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd swyddog y Gweinidog:

> "The role of the head teacher under New Directions, in terms of the school development plan, has to be to identify the developmental need of the individual staff within his or her school. That has to be measured on a basis of what are the whole-school needs, because, in the end, the needs of the teachers have to be geared to the needs of the pupils. This would apply to supply teachers also."[42]

159. Wrth ystyried y mater hwn, barn y Pwyllgor oedd bod cynlluniau datblygu ysgolion yn amlwg yn canolbwyntio ar staff parhaol yr ysgol yn hytrach nag athrawon cyflenwi. Byddai'n golygu adnoddau a galw mawr ar benaethiaid pe bai gofyn iddyn nhw asesu athrawon cyflenwi unigol sy'n dod i mewn yn rheolaidd. O'i holi sut y byddai'r Gweinidog yn sicrhau y gallai athro cyflenwi gael ei asesu, cael rheoli ei berfformiad a chael cymorth o dan y cynllun datblygu ysgol, dywedodd swyddog y Gweinidog:

---

[40] Tystiolaeth lafar, 20 Mai 2015, Cofnod y Trafodion
[41] Cynlluniau Datblygu Ysgolion - Canllawiau Llywodraeth Cymru Hydref 2014
[42] Tystiolaeth lafar, 20 Mai 2015, Cofnod y Trafodion

> "…that has to be part and parcel of the same process with the school development plans, and Estyn will expect to see that in there. Now, what that may lead to is a different model of what we might not call supply teaching, eventually, further along the line. As we start rolling out curriculum changes and the new deal, we may well be looking at clusters of schools—I think somebody mentioned this morning—actually employing teachers."[43]

DPP a Rôl CGA

160. Gwnaeth y Gweinidog nifer o gyfeiriadau at rôl Cyngor y Gweithlu Addysg mewn perthynas â DPP. Yn ei dystiolaeth lafar[44], cadarnhaodd y Gweinidog nad oes gan y Cyngor ddigon o adnoddau, capasiti na gallu ar hyn o bryd o fewn Ddeddf Addysg (Cymru) 2014[45] i baratoi'r rhaglen datblygu proffesiynol a fyddai'n ddymunol. Er hynny, dywedodd nad oedd am bennu sut y byddai'r Cyngor yn edrych ymhen tair i bedair blynedd. Byddai lefel yr adnoddau'n well, ond efallai y byddai angen ystyried egwyddor gyfrannol.

161. Ychydig iawn o dystiolaeth uniongyrchol a gafodd y Pwyllgor gan randdeiliaid eraill ynglŷn â rôl y Cyngor a gofynnodd am ragor o wybodaeth gan y Gweinidog ar ei weledigaeth ef ynglŷn â rôl y Cyngor. Mewn llythyr at y Pwyllgor, cadarnhaodd ymateb y Gweinidog:

> "There needs to be a wider informed debate between Government, employers, practitioners, education workforce unions, and the EWC on how we support all education professionals, including supply teachers. This debate needs to take place within the context of the Welsh Government's wider education reform programme, most notably the far-reaching curriculum changes proposed in Professor Donaldson's report Successful Futures. The outcome of this debate will potentially have an impact on the roles and responsibilities, and therefore resources, of the EWC."

DPP gorfodol i bob athro

162. Awgrymodd nifer o sefydliadau, gan gynnwys PCYDDS, New Directions a'r ATL y bydden nhw o blaid DPP gorfodol i bob athro.

---

[43] Tystiolaeth lafar, 20 Mai 2015, Cofnod y Trafodion
[44] Ibid
[45] Ddeddf Addysg (Cymru) 2014

163. Dywedodd CGA y byddai angen newid y ddeddfwriaeth pe bai DPP am fod yn orfodol ac, os felly, byddai angen sicrhau ansawdd y DPP a sicrhau ei fod ar gael yn gyson ledled y wlad, nid dim ond nodi faint o oriau o DPP oedd wedi'u gwneud.

164. Mae PCYDDS wedi cynnig Tystysgrif Ymarfer yn cynnwys gofyniad bod DPP yn orfodol i athrawon nad oes ganddyn nhw gontractau amser-llawn neu barhaol, fel bod hyfforddiant ar gael ar gyfer blaenoriaethau cenedlaethol a lleol a blaenoriaethau ysgolion. Nododd CGA hefyd ei bod yn ofynnol mewn proffesiynau eraill i unigolion fodloni gofynion DPP blynyddol i gadw eu cofrestriad – sef rhywbeth sydd wedi'i dreialu gan Gyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban.

165. Yn ei dystiolaeth ef, dywedodd y Gweinidog y byddai'n well ganddo gosod disgwyliad bod rhaid i athrawon ymgymryd â DPP yn hytrach na'i wneud yn orfodol.[46] Dywedodd y Gweinidog fod yna ffyrdd i'r Llywodraeth osod nodau ac uchelgais "that would not involve writing into law some kind of compulsion for a professional to be doing a certain thing at a certain time".

Effaith y Canllawiau newydd

166. Mae'r Canllawiau newydd yn dweud:

- dylai athrawon cyflenwi allu dangos yr un dysgu proffesiynol ag a nodwyd yn y Fargen Newydd. Bydd adnoddau ar gael i bob ymarferwr drwy gyfrwng Dysgu Cymru;
- dylai asiantaethau cyflenwi adolygu anghenion unigolion;
- rhaid i Gynlluniau Datblygu Ysgolion gynnwys manylion ynglŷn ag anghenion staff sy'n cynnwys y rhai sydd wedi'u gosod dros dro yn yr ysgol gan gynnwys athrawon byrdymor a hirdymor.

167. Mae ymateb Estyn i'r Canllawiau newydd yn cyfeirio'n benodol at y gosodiad y "bydd darpariaeth ysgol ar gyfer cefnogi datblygiad proffesiynol yr ymarferwyr hyn yn adlewyrchu natur deiliadaeth a lleoliad yr unigolion". Mae Estyn yn pryderu y gallai'r gosodiad hwn annog ysgolion i ddefnyddio cyfres o staff byrdymor lle byddai opsiwn mwy hirdymor yn fwy priodol.

168. Mae Estyn hefyd yn dweud nad oes llawer o ganllawiau o hyd ar sut y gall staff cyflenwi gyrchu rhaglenni hyfforddi cenedlaethol.

[46] Tystiolaeth lafar, 20 Mai 2015, Cofnod y Trafodion

169. Mae'r NASUWT yn dweud bod y Canllawiau'n ddiffygiol yn yr ystyr nad ydyn nhw'n cydnabod y dylai asiantaethau ddarparu DPP o safon.

Barn y Pwyllgor

170. Roedd yr anawsterau sy'n gysylltiedig â DPP i athrawon cyflenwi yn thema bwysig drwy holl ymchwiliad y Pwyllgor. Er bod y Gweinidog wedi ailddatgan ei ymrwymiad y bydd y Fargen Newydd ar gyfer y Gweithlu Addysg yn berthnasol i'r holl athrawon, nid yw'n glir o'r dystiolaeth sut y câi hyn ei sicrhau.

171. Mae cwestiwn talu cost DPP, gan gynnwys y posibilrwydd y gall athrawon cyflenwi golli cyflog, yn dal yn bryder mawr, ac mae'r Pwyllgor yn cytuno â phwynt New Directions y byddai hyfforddiant yn ystod gwyliau ysgol yn helpu i ddatblygu athrawon cyflenwi. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i gydweithio â New Directions i edrych ar y potensial i adnewyddu elfennau hanfodol hyfforddiant, ac mae'n credu y dylai hyn gynnwys pob asiantaeth, a'r potensial i gynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer DPP yn ystod gwyliau ysgol.

172. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod Cynlluniau Datblygu Ysgolion wedi'u cyflwyno, ac mae'n cytuno y dylai hyn helpu i ddarparu hyfforddiant gwell yn gyffredinol ar draws y gweithlu ysgol. Er hynny, nid yw'n glir sut y caiff Cynlluniau Datblygu Ysgolion eu defnyddio i ystyried anghenion athrawon cyflenwi sydd ar gontractau o ddydd i ddydd neu gontractau mwy byrdymor, ac mae angen rhoi sylw i hyn ar fyrder.

173. Er bod y posibilrwydd o ddefnyddio dysgu ar-lein wedi'i gydnabod, yn enwedig felly cyflwyno'r Pasbort Dysgu Proffesiynol, cafwyd cydnabyddiaeth hefyd gan y rhai a roddodd dystiolaeth, gan gynnwys y Gweinidog, i bwysigrwydd rhannu arferion proffesiynol ac arsylwi'n uniongyrchol. Gan hynny, mae'r Pwyllgor yn galw ar y Gweinidog i hybu pwysigrwydd DPP wyneb yn wyneb yn ogystal â dysgu ar-lein.

174. Cafodd yr awgrym ynglŷn â CPD gorfodol ar gyfer athrawon ei gefnogi gan lawer, ond nid gan y Gweinidog. Mae'r Pwyllgor yn derbyn y gall fod anawsterau posibl o ran sefydlu ymagwedd statudol at DPP, ond mae'n credu bod hyn yn rhywbeth y dylai'r Gweinidog edrych yn fanylach arno, gan gynnwys y potensial ar gyfer sefydlu gofynion DPP blynyddol er mwyn cadw'ch cofrestriad, fel y mae wedi'i dreialu gan Gyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban.

175. Soniodd y Gweinidog am rôl estynedig i CGA wrth ddatblygu DPP. Er hynny, ni chafwyd eglurder gan y Gweinidog ar sut y câi hyn ei wneud. Mae'r Pwyllgor felly yn credu bod angen i'r Gweinidog nodi'n glir ei weledigaeth ar gyfer y Cyngor wrth ddatblygu DPP, gan gyfeirio'n benodol at athrawon cyflenwi.

176. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod ac yn cytuno â phryderon Estyn y gallai'r gosodiad yn y Canllawiau newydd y "bydd darpariaeth ysgol ar gyfer cefnogi datblygiad proffesiynol yr ymarferwyr hyn yn adlewyrchu natur deiliadaeth a lleoliad yr unigolion" greu canlyniadau anfwriadol a pheri bod ysgolion yn cyflogi cyfres o staff byrdymor lle gallai opsiwn mwy hirdymor fod yn fwy priodol. Er mwyn monitro hyn, dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Estyn fynd ati, fel rhan o'u hadolygiad o'r Canllawiau, i ystyried a yw'r Canllawiau'n creu'r canlyniadau anfwriadol hyn (neu beidio).

Argymhelliad 11: Rhaid i Lywodraeth Cymru roi eglurder ar sut y gall y Fargen Newydd a Chynlluniau Datblygu Ysgolion gael eu defnyddio i roi cefnogaeth bendant i anghenion athrawon cyflenwi o ran DPP, yn enwedig y rhai sydd ar gontractau mwy byrdymor.

Argymhelliad 12: Dylai Llywodraeth Cymru hybu pwysigrwydd DPP wyneb yn wyneb yn ogystal â dysgu ar-lein yn ei strategaethau DPP. Dylai hyn gael ei wneud drwy'r trwch, ond gan ganolbwyntio'n benodol ar DPP i athrawon cyflenwi.

Argymhelliad 13: Dylai Llywodraeth Cymru edrych ar y potensial ar gyfer DPP gorfodol, gan gynnwys y potensial ar gyfer sefydlu gofynion DPP blynyddol er mwyn cadw'ch cofrestriad, fel y mae wedi'i dreialu gan Gyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban.

Argymhelliad 14: Rhaid i'r Gweinidog nodi'r glir ei weledigaeth ar gyfer Cyngor y Gweithlu Addysg wrth ddatblygu DPP, gan gyfeirio'n benodol at athrawon cyflenwi.

Argymhelliad 15: Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio'n uniongyrchol â'r asiantaethau cyflenwi i edrych ar y potensial i adnewyddu elfennau hanfodol hyfforddiant, gan gynnwys y potensial i gynyddu'r ddarpariaeth DPP yn ystod gwyliau ysgol.

Argymhelliad 16: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Estyn yn mynd ati, fel rhan o'u hadolygiad o'r Canllawiau newydd, i ystyried a yw'r gosodiad yn y Canllawiau ynglŷn â 'darpariaeth ysgol ar gyfer cefnogi datblygiad proffesiynol...' wedi creu'r canlyniad anfwriadol bod ysgolion yn cyflogi cyfres o staff byrdymor lle gallai opsiwn mwy hirdymor fod yn fwy priodol.

10. Rheoli Perfformiad

177. Mae'r Pwyllgor wedi clywed llawer o dystiolaeth sy'n awgrymu nad oes proses rheoli perfformiad gwirioneddol ar gyfer athrawon cyflenwi. Cydnabu llawer o'r rhai a gyflwynodd dystiolaeth yr anawsterau ynglŷn â darparu rheolaeth perfformiad ar gyfer athrawon cyflenwi, gan amau a oedd y system yn ymarferol ar gyfer staff byrdymor.

178. Mae llawer o'r anhawster o ran rheoli perfformiad staff cyflenwi yn deillio o'r broses ddeddfwriaethol sy'n sail i'r system. Pan gyflogir athro ar sail cyfnod penodol am un tymor ysgol neu fwy, rhaid i'r ysgol gynnal y broses rheoli perfformiad fel y'i nodir yn ei Pholisi Rheoli Perfformiad Ysgol sy'n ofynnol o dan Reoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011.[47]

179. Er hynny, pan gyflogir athro i gyflenwi am gyfnod o lai nag un tymor ysgol nid yw'r gofyniad statudol ynglŷn ag ymgymryd â phroses rheoli perfformiad yn gymwys.

180. I athrawon cyflenwi ar gontractau mwy byrdymor, yr asiantaeth gyflenwi sy'n gyfrifol am reoli perfformiad, trwy adborth sy'n cael ei gasglu oddi wrth y pennaeth. Pan holwyd ble roedd y cyfrifoldeb yn gorwedd, dywedodd swyddog y Gweinidog:

> "The responsibility is with the supply agency in relation to their performance management, and you'd expect particularly the preferred supply agency that's been chosen, but you'd expect them all, to be able to be talking to those headteachers, those teachers involved, so that they get that feedback so as they can actually build on that performance management."[48]

181. Mae New Directions a Teaching Personnel yn cadarnhau yn eu tystiolaeth lafar eu bod yn gofyn am adborth ar berfformiad athrawon cyflenwi.[49] Er hynny, dywedodd y ddwy asiantaeth gyflenwi eu bod yn dibynnu'n drwm iawn ar yr ysgolion i roi'r adborth hwnnw. Dywedodd New Directions eu bod yn methu siarad â'u holl ymgeiswyr oherwydd niferoedd staff a'u bod yn canolbwyntio felly ar y rhai sy'n tangyflawni.

182. Gwelodd Estyn nad yw'r mwyafrif o ysgolion yn darparu digon o adborth i athrawon cyflenwi. Weithiau mae'r ysgolion yn rhannu adborth gyda'r

[47] Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011
[48] Tystiolaeth lafar, 20 Mai 2015, Cofnod y Trafodion
[49] Tystiolaeth lafar, 6 Mai 2015, Cofnod y Trafodion

asiantaeth ond mae ansawdd yr adborth yn amrywio a heb fod yn gadarn. Roedd yn ymddangos bod yr adborth yn fanylach lle ceir pryderon, ac felly mae'r adborth yn tueddu i ganolbwyntio ar agweddau negyddol. Amlinellodd Estyn hefyd nad oes trefniadau ffurfiol i asiantaethau cyflenwi rannu pryderon am athrawon cyflenwi gyda Llywodraeth Cymru neu CGA.

183. Dywedodd CGA fod arferion rheoli perfformiad yn amrywio ymhlith yr asiantaethau a'r awdurdodau lleol. Mae gan rai asiantaethau drefniadau sydd wedi datblygu'n dda, ond mae'n bosibl bod asiantaethau neu awdurdodau'n rhoi'r gorau i ddefnyddio athro cyflenwi penodol yn hytrach na mynd i'r afael â materion perfformiad. Maen nhw'n awgrymu y gallai achrediad gan y Cydffederasiwn Recriwtio a Chyflogi (REC) ddod yn orfodol i asiantaethau yng Nghymru (o dan oruchwyliaeth CGA).

184. O ran rheoli perfformiad athrawon cyflenwi gan New Directions, dywedodd swyddog y Gweinidog:

> "The contract will be managed by the national procurement service. It's not managed by us. We don't own it. But, we've already met with New Directions and we will build a relationship with them to make sure that we can feed in and that we can actually complete the loop. So, when they are talking to us about various data they've done on performance management, we can find out the richer data, feed back to the schools and feed back to them, so that we can actually get underneath some of that information and try and see where we need to intervene."[50]

Effaith y Canllawiau newydd

185. Mae'r Canllawiau newydd yn cynnwys gwybodaeth am reoli perfformiad a sut y dylid mynd ati. Er hynny, mae'r Canllawiau'n canolbwyntio ar y darpariaethau yn y ddeddfwriaeth, ac nid ydyn nhw'n cynnig cyngor ar sut y gallai neu y dylai perfformiad athrawon cyflenwi ar gontractau mwy byrdymor gael ei reoli.

Barn y Pwyllgor

186. Mae yna anawsterau amlwg a chydnabyddedig o ran rheoli perfformiad athrawon cyflenwi mwy byrdymor, ond mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw'n ymddangos bod fawr ddim wedi'i wneud i geisio datrys y materion hyn, er bod yr anawsterau'n cael eu cydnabod.

---

[50] Tystiolaeth lafar, 20 Mai 2015, Cofnod y Trafodion

187. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i feithrin perthynas â New Directions a defnyddio'r data ar reoli perfformiad i ganfod ble y gall fod angen ymyriad gan y Gweinidogion.

188. Er bod y Pwyllgor yn derbyn nad oes gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb uniongyrchol dros reoli perfformiad, fe ddylai'r Gweinidog ddefnyddio'r berthynas â New Directions i helpu i sicrhau bod y broes rheoli perfformiad yn cael ei darparu i bob athro cyflenwi, nid yn unig y rhai sy'n tangyflawni. Dylai'r ymagwedd hon gael ei harddel gan y Gweinidog gyda'r holl asiantaethau cyflenwi, ac nid New Directions yn unig.

189. Mae'r Pwyllgor yn credu'n gryf fod rhaid cael system fwy cadarn ar gyfer darparu adborth ar bob lefel, boed hynny gan ysgolion, asiantaethau neu athrawon cyflenwi. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gallai hyn gael ei gyflawni, ac edrych i weld a oes mwy y gellid ei gynnwys yn y Canllawiau, gan gynnwys a oes mwy o rôl i'r awdurdodau lleol neu'r consortia rhanbarthol wrth helpu i reoli perfformiad athrawon cyflenwi byrdymor.

Argymhelliad 17: Dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â'r asiantaethau cyflenwi er mwyn helpu i sicrhau bod y broses rheoli perfformiad yn cael ei darparu ar gyfer yr holl athrawon cyflenwi, nid y rhai sy'n tangyflawni yn unig.

Argymhelliad 18: Rhaid i Lywodraeth Cymru gydweithio â'r rhanddeiliaid i greu system fwy cadarn ar gyfer darparu adborth ar berfformiad athrawon cyflenwi. Dylai'r Gweinidog ystyried a allai'r Canllawiau newydd gael eu haddasu i gynnwys mwy o rôl i'r awdurdodau lleol neu'r consortia rhanbarthol o ran helpu i reoli perfformiad athrawon cyflenwi byrdymor.

11. Asiantaethau cyflenwi a sicrhau ansawdd

190. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan nifer o dystion a oedd yn awgrymu ei bod yn anodd mesur sicrwydd ansawdd, yn arbennig gan nad oedd "marc ansawdd" neu "safon" ar hyn o bryd y mae'n ofynnol i'r asiantaethau cyflenwi eu bodloni.

191. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, esboniodd y Gweinidog fod Marc Ansawdd blaenorol Llywodraeth Cymru wedi dod i ben yn 2011.[51] Yn sgil adolygiad, cafwyd mai cyfyngedig oedd y cynllun o ran ei allu i ddylanwadu ar arferion recriwtio a rheoli'r holl asiantaethau cyflenwi.

192. Clywodd y Pwyllgor fod asiantaethau cyflenwi yng Nghymru'n gallu gwneud cais am farc ansawdd y Cydffederasiwn Recriwtio a Chyflogi (REC), Addysg Archwiliedig, sef y cynllun archwilio newydd i roi sicrwydd o ansawdd asiantaethau recriwtio sy'n cyflenwi staff addysgu a staff eraill i ysgolion, academïau a darparwyr addysg ledled Cymru a Lloegr. Er hynny, dywedodd CGA wrth y Pwyllgor nad oedd yr achrediad hwn gan y mwyafrif o'r asiantaethau.

193. Yn eu tystiolaeth, dywedodd CGA:

> "I think that if the decision of Wales was to move to a central body coordinating supply, part of the work of that organisation would be the quality assurance side…
>
> "…But, in terms of the current agency model, it does seem to be an issue in terms of quality assurance. As I've said, we've gone from a dozen agencies to over 40. Only about half a dozen have REC assurance, and that's an England-based scheme. Really, I think that if we are to continue with agencies, it would be beneficial to have a Wales-based scheme."[52]

194. Er nad ydyn nhw o blaid asiantaethau cyflenwi athrawon yn gyffredinol, o ran rheoleiddio asiantaethau cyflenwi, dywedodd yr NASUWT eu bod yn credu nad oedd digon o reoleiddio yn y system a'u bod o'r farn y gallai asiantaethau cyflenwi gael eu rheoleiddio drwy system nod barcut.[53]

[51] CYPE(4) 15-15 - Papur 1
[52] Tystiolaeth lafar, 6 Mai 2015, Cofnod y Trafodion
[53] Ibid

195. Roedd Teaching Personnel o blaid rhyw fath o sicrwydd ansawdd ac roedd New Directions yn cytuno y byddai rhyw fath o achrediad gorfodol yn codi ansawdd darpariaeth yr asiantaethau.

Materion cyflogaeth

196. Clywodd y Pwyllgor gan athrawon cyflenwi fod yna achosion lle gallen nhw fod yn gweithio i asiantaeth gyflenwi, ond mai cwmni arall, neu gwmni ymbarél yw eu cyflogwr mewn gwirionedd. Awgrymwyd y gallai hyn gael effaith ar ansawdd a'r ddarpariaeth ac ar DPP a chyfrifoldebau asiantaeth.

197. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu rhagor o wybodaeth ynglŷn â defnyddio cwmnïau ymbarél. Mewn llythyr at y Pwyllgor, cadarnhaodd y Gweinidog:

> "The Department for Education (DfE) issued guidance in March 2014 addressing a number of issues which relate only to temporary agency workers who are supply teachers. This guidance provides information about teachers employed by an umbrella organisation…
>
> "I would like to stress that my officials have discussed this issue with New Directions who have confirmed that less than 1% of the supply teachers registered with them operate through an umbrella company. This is due to historic contractual arrangements that the teachers themselves have requested to remain within."

Effaith y Canllawiau newydd

198. Mae'r canllawiau drafft yn nodi rôl yr asiantaeth gyflenwi mewn perthynas â gwiriadau cyflogaeth, adolygu anghenion athrawon o safbwynt datblygu proffesiynol, rhoi gwybodaeth berthnasol am yr ysgolion i'r athrawon cyfenwi a chyfarfod yn rheolaidd â'r awdurdodau lleol.

199. Yn eu hateb i'r ymgynghoriad, mae Estyn yn nodi bod y canllawiau heb ystyried yr effaith y mae lefelau isel cyflog athrawon a gyflogir drwy asiantaeth yn ei chael ar eu parodrwydd i fynd y tu hwnt i ddisgwyliadau sylfaenol diwrnod o waith. Maen nhw'n awgrymu:

> "it might be reasonable to expect guidance to suggest improvements to the pay and conditions of staff acquired through agencies."

200. Mynegodd un athro cyflenwi siom ei bod yn ymddangos bod y canllawiau'n annog ysgolion i negodi gydag asiantaethau i sicrhau'r

bargeinion rhataf. Hefyd, mynegodd athro cyflenwi arall rwystredigaeth nad yw'r canllawiau'n ymdrin â thâl ac amodau.

201. Mae Estyn yn dweud y byddai'n ddefnyddiol cael esboniad cliriach o reol rhanddirymiad Sweden yn y canllawiau (hynny yw, defnyddio cwmnïau ymbarél). Awgrymodd un athro cyflenwi fod y canllawiau fel pe baen nhw'n hybu defnyddio rhanddirymiad Sweden.

Barn y Pwyllgor

202. Roedd y Pwyllgor yn pryderu am effaith y diffyg "marc ansawdd" neu "safon" y mae'n ofynnol i asiantaethau cyflenwi eu bodloni, yn arbennig am fod y mwyafrif o'r asiantaethau heb wneud cais am farc ansawdd y Cydffederasiwn Recriwtio a Chyflogi (REC). Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a fyddai sefydlu marc ansawdd i Gymru yn gwella sicrwydd ansawdd.

203. Er mai nifer fach yn unig o athrawon cyflenwi sy'n cael eu cyflogi o bosibl drwy sefydliadau ymbarél, mae'r Pwyllgor yn cydnabod ei bod yn bwysig, lle mae athrawon yn cael eu cyflogi fel hyn, na ddylai hynny effeithio ar ansawdd na darpariaeth athrawon cyflenwi nac ar gyfrifoldebau DPP yr asiantaeth. Mae'r Pwyllgor yn cytuno ag Estyn y dylid cynnwys esboniad cliriach ar y rheolau ynghylch defnyddio cwmnïau ymbarél (rhanddirymiad Sweden) yn y Canllawiau.

Argymhelliad 19: Dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori ag asiantaethau ac athrawon cyflenwi i ystyried a fyddai sefydlu achrediad neu nod barcut penodol i Gymru ar gyfer athrawon cyflenwi yn gwella sicrwydd ansawdd, ac fe ddylai weithio i sefydlu nod barcut o'r fath os yw'n briodol.

Argymhelliad 20: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Canllawiau newydd yn cynnwys esboniad cliriach ar y rheolau ar gyfer defnyddio cwmnïau ymbarél (rhanddirymiad Sweden) er mwyn sicrhau nad yw hynny'n creu effaith negyddol ar ansawdd na darpariaeth athrawon cyflenwi nac ar gyfrifoldebau DPP yr asiantaeth.

12. Cyfrwng Cymraeg

204. Mae'r Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth (hanesiol yn aml) ynghylch prinder cyffredinol athrawon cyflenwi cyfrwng Cymraeg a hefyd, efallai o ganlyniad i hyn, fod athrawon cyfrwng Cymraeg yn cael eu defnyddio nad yw eu sgiliau'n ddigonol o bosibl.

205. Yn eu tystiolaeth nhw, dywedodd PCYDDS eu bod wedi gweld bod graddedigion hyfforddiant athrawon cyfrwng Cymraeg yn fwy abl i ddod o hyd i swyddi parhaol, ac felly nad oedden nhw'n mynd i'r gronfa gyflenwi.[54]

206. Mae un o brif ganfyddiadau adroddiad Estyn yn awgrymu: "Mae ychydig o ysgolion, yn enwedig ysgolion Cymraeg ... yn cael anhawster dod o hyd i athrawon cyflenwi addas".

Ar gyfer disgyblion mewn ysgolion Cymraeg ey cyfrwng -

Cwestiwn 11: Pan fydd athro cyflenwi yn dy ddysgu, a yw'n dy ddygu yn yr un iaith ag yr wyt ti'n arfer cael dy ddysgu yn y wers honno?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 238

- Yr un iaith: **53.3% (127)**
- Iaith wahanol: **46.6% (111)**



Ffynhonnell: Arolwg y Pwyllgor o'r defnydd o Athrawon Cyflenwi

207. Roedd y Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth bod athrawon cyflenwi'n cael eu defnyddio i lenwi bylchau weithiau a oedd heb y sgiliau a oedd yn angenrheidiol mewn amgylchiadau penodol, ac roedd hyn yn cynnwys y gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Pan ofynnwyd am y math o wybodaeth

[54] Tystiolaeth lafar, 26 Mawrth 2015, Cofnod y Trafodion

sy'n dod nôl i'r Gweinidog am safon y sgiliau Cymraeg sy'n angenrheidiol mewn lleoliad penodol ac nad ydyn nhw'n cael eu darparu, dywedodd y Gweinidog:

> "the proportion of Welsh speaking supply teachers was about the same as the general teaching population. If there are issues around the way the system is working that is causing there to be a lack of clarity about exactly what we need to know here, then I'm hoping that the measures I've outlined will encapsulate this issue of a reasonable—well, a very good level—of Welsh language capability as something that is a strategic requirement for the workforce and for us as a country."[55]

208. Ychwanegodd:

> "So, again, that would be looked into as part and parcel, for instance, of things like the [Estyn] thematic review [ynglŷn â'r canllawiau ynghylch Rheoli Absenoldeb]."

209. Er mwyn cyflawni uchelgais yr Athro Donaldson, dywedodd y Gweinidog y byddai angen newid dirfawr o ran DPP (i bob athro) o ran y Gymraeg. Dywedodd hefyd fod yr Athro Furlong wedi nodi:

> "within the primary workforce in particular, a structural weakness in the system. We have too few subject specialists who are confident in particular subject areas in our primary schools and we have too many generalists. The delivery of a good level of Welsh language acquisition support or whatever—teaching—within a school is part and parcel of that, I think. We've got to set a different level of expectation around initial teacher training and we need a new system to address this through the new deal, as well."[56]

210. Dywedodd hefyd:

> "If this reform is showing us that we have a structural problem with competence in the Welsh language, not just in terms of fluency, but in terms of professional competence, then I'd be quite willing to open up discussions about how we can better address that."[57]

---

[55] Tystiolaeth lafar, 20 Mai 2015, Cofnod y Trafodion
[56] Yr Athro John Furlong, *Addysgu Athrawon Yfory*, Mawrth 2015
[57] Tystiolaeth lafar, 20 Mai 2015, Cofnod y Trafodion

Effaith y Canllawiau newydd

211. Nid yw'r Canllawiau ynghylch Rheoli Presenoldeb Gweithlu Ysgolion yn Effeithiol yn gwneud darpariaethau penodol ynglŷn â darparu athrawon cyflenwi cyfrwng Cymraeg.

Barn y Pwyllgor

212. Roedd y Pwyllgor yn bryderus o glywed tystiolaeth ynghylch diffyg posibl athrawon cyflenwi cyfrwng Cymraeg, ond mae'n cydnabod mai hanesiol oedd rhywfaint o'r dystiolaeth a gafwyd yn hyn o beth.

213. Mae'n hanfodol sicrhau darlun cywir o effaith gwaith athrawon cyflenwi cyfrwng Cymraeg, er mwyn i gamau priodol gael eu cymryd os oes eu hangen. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru'n bwriadu gofyn i Estyn gynnal adolygiad thematig arall o drefniadau cyflenwi yn 2016/17, ac mae'n credu y dylai materion cyflenwi cyfrwng Cymraeg gael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad hwnnw.

214. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor wedi argymell y dylai Llywodraeth Cymru wneud ymchwil ar effaith gwaith athrawon cyflenwi ar y deilliannau i'r disgyblion. Fel rhan o'r gwaith ymchwil hwnnw, mae'r Pwyllgor yn credu y dylid cael cyfeiriad penodol at y deilliannau ar gyfer disgyblion mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg.

Argymhelliad 21: Fel rhan o'i chais i Estyn gynnal adolygiad thematig arall o drefniadau cyflenwi yn 2016/17, dylai Llywodraeth Cymru gynnwys cwestiwn athrawon cyflenwi cyfrwng Cymraeg.

Argymhelliad 22: Fel rhan o'r ymchwil a argymhellir ar effaith gwaith athrawon cyflenwi ar y deilliannau ar gyfer disgyblion (gweler Argymhelliad 9), dylid cael cyfeiriad penodol at y deilliannau ar gyfer disgyblion mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg.

Atodiad 1 – Tystion

215. Rhoddodd y tystion canlynol dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau isod. Mae trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar i'w gweld yn llawn yn:
http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1305

12 Mawrth 2015

Enw	**Sefydliad**
Meilyr Rowlands	Estyn
Catherine Evans	Estyn

18 Mawrth 2015

Enw	**Sefydliad**
Owen Hathway	Undeb Cenedlaethol yr Athrawon Cymru (NUT)
Elaine Edwards	Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
Dr Chris Llewelyn	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Daisy Seabourne	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

26 Mawrth 2015

Enw	**Sefydliad**
Yr Athro Ken Jones	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Peter Thomas	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Rex Phillips	Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau

6 Mai 2015

Enw	**Sefydliad**
Hayden Llewellyn	Cyngor y Gweithlu Addysg
Angela Jardine	Cyngor y Gweithlu Addysg
Gary Williams	New Directions Education Limited
Derek Lefley	Teaching Personnel Ltd
Dr Philip Dixon	Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr Cymru
David Healey	Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr Cymru
Gareth Lewis	Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr Cymru

20 Mai 2015

Enw	**Sefydliad**
Huw Lewis AC	Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Brett Pugh	Llywodraeth Cymru
Zenny Saunders	Llywodraeth Cymru

Atodiad 2 – Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

216. Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau canlynol dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld y dystiolaeth ysgrifenedig lawn yn: http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?ID=163

Sefydliad	Cyfeirnod
Ysgrifennydd Ysgol - Cynradd	ST 01
Pennaeth – Cynradd	ST 02
Pennaeth – Cynradd	ST 03
Athro Cyflenwi	ST 04
Pennaeth – Ysgol Uwchradd	ST 05
Athro Cyflenwi	ST 06
Athro Cyflenwi	ST 07
Athro Cyflenwi	ST 08
Athro Cyflenwi	ST 09
Dirprwy Bennaeth – Ysgol Uwchradd	ST 10
Athro – Ysgol Uwchradd a Rhiant	ST 11
Pennaeth – Ysgol Uwchradd	ST 12
Cyn-athro – Ysgol Uwchradd	ST 13
Dirprwy Bennaeth – Ysgol Uwchradd	ST 14
Adran Wyddoniaeth – Ysgol Uwchradd	ST 15
Pennaeth - Cynradd	ST 16
Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru	ST 17
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	ST 18
Pennaeth – Ysgol Uwchradd	ST 19
Undeb Cenedlaethol yr Athrawon Cymru	ST 20
Personél Addysgu	ST 21
Athro Cyflenwi	ST 22

Sefydliad	Cyfeirnod
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)	ST 23
Athro Cyflenwi	ST 24
Ffederasiwn Penaethiaid Ysgol Pen-y-bont ar Ogwr	ST 25
Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig	ST 26
Dirprwy Bennaeth – Ysgol Uwchradd	ST 27
Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr Cymru	ST 28
Estyn	ST 29
Athro Cyflenwi	ST 30
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	ST 31
Undeb Cenedlaethol yr Athrawon, Sefton	ST 32
Dinas a Sir Abertawe	ST 33
Gwasanaeth Addysg Bwrdeistref Sirol Torfaen	ST 34
NASUWT Cymru	ST 35
Athro Cyflenwi	ST 37
Prifathro Cynorthwyol	ST 38
New Directions Education Limited	ST 39
Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru	ST 40
Asiantaeth Addysgu Valley Education	ST 41
Athro Cyflenwi	ST 42
Llywodraethwr Ysgol	ST 43
Athro Cyflenwi	ST 44
Athro Cyflenwi	ST 45
Llywodraethwyr Cymru	ST 46
Consortiwm Canolbarth y De	ST 47

Atodiad 3 – Crynodeb o'r Ymgynghoriad ar y Canllawiau ynghylch Rheoli Absenoldeb Gweithlu Ysgolion yn Effeithiol

217. Rhoddodd Estyn ddadansoddiad manwl o'r canllawiau, gan dweud y bydden nhw'n ddefnyddiol i helpu'r ysgolion i wella'u rheolaeth ar bresenoldeb y gweithlu. Er hynny, tynnodd Estyn sylw hefyd at dri maes penodol lle nad oedd ei adroddiad *Effaith Absenoldeb Athrawon* (2013) yn cael digon o sylw, neu lle nad oedd y canllawiau yn ddigon clir, sef:

- cyfeiriadau cyfyngedig yn unig at sut mae ysgolion yn cefnogi strategaethau rheoli ymddygiad fel rhan o DPP ar gyfer gwaith cyflenwi;
- ychydig yn unig o ffocws ar fonitro ansawdd yr addysgu a'r dysgu sy'n effeithio ar safonau'r disgyblion;
- ychydig yn unig o ganllawiau ar sut y dylai staff cyflenwi gyrchu rhaglenni hyfforddi cenedlaethol.

218. Awgrymodd Estyn hyn hefyd:

- gallai'r canllawiau arwain ysgolion i gredu bod gofyniad bod rhaid iddyn nhw osod targed ynglŷn ag absenoldeb yn y gweithlu yn eu Cynllun Datblygu Ysgol;
- dylid sicrhau nad yw'r gosodiad y bydd darpariaeth ysgol ar gyfer cefnogi datblygiad proffesiynol staff cyflenwi yn adlewyrchu natur y swydd a'r ddeiliadaeth yn annog ysgolion i gyflogi cyfres o staff byrdymor lle byddai opsiwn mwy hirdymor yn fwy priodol;
- nid yw'r canllawiau'n rhoi fawr o sylw i sut y gall ysgolion helpu athrawon cyflenwi i wneud mwy na dim ond goruchwylio disgyblion neu addysgu pynciau heblaw eu harbenigedd eu hunain;
- nid yw'r canllawiau'n rhoi pwyslais digon cryf ar y rôl gefnogol y dylai adrannau adnoddau dynol ei chwarae i benaethiaid a llywodraethwyr, yn arbennig o dan amgylchiadau ymestynnol;
- nid yw'r canllawiau'n cydnabod y lefelau tâl isel y gall athrawon asiantaeth eu cael na'r effaith y gall hynny ei chael ar agwedd athro cyflenwi a'i barodrwydd i fynd y tu hwnt i'w waith beunyddiol. Mae Estyn yn awgrymu y gallai fod yn rhesymol i'r canllawiau awgrymu

gwelliannau yn nhâl ac amodau staff sy'n cael eu sicrhau drwy asiantaethau;

- byddai esboniad cliriach ar reol rhanddirymiad Sweden (ynglŷn â chwmnïau ymbarél) yn fuddiol.

219. Roedd yr NASUWT wedi cyflwyno sylwadau ar y canllawiau drafft i Lywodraeth Cymru. Er hynny, roedden nhw'n dal yn credu bod y canllawiau'n cynnwys diffygion o ran y canlynol:

- tâl ac amodau a threfniadau pensiwn athrawon ysgol;
- polisïau cyflogi priodol asiantaethau athrawon cyflenwi o ran honiadau ynglŷn â chamymddygiad;
- defnyddio rhanddirymiad Sweden;
- asiantaethau'n darparu DPP;
- cydnabod bod absenoldebau sydd heb eu cynllunio yn gallu cael eu rhag-weld ac y dylai strwythurau staffio fod wedi cael eu had-drefnu i ganiatáu i absenoldebau gael eu cyflenwi;
- nid yw'r fethodoleg cyllido ysgolion yn rhoi sail gadarn ar gyfer rheoli absenoldebau staff yn effeithiol.

220. Maen nhw'n gofidio y caiff y canllawiau eu defnyddio gan rai i osod pwysau ar athrawon i ddychwelyd i'r gwaith yn rhy gynnar ar ôl bod yn sâl neu i beidio â chymryd amser i ffwrdd pan fo'i angen.

221. Dywedodd Cyngor y Gweithlu Addysg fod y canllawiau'n glir ac y dylen nhw gyrraedd y nodau sydd wedi'u datgan ynddyn nhw. Yn gyffredinol, roedd eu sylwadau'n ymwneud â gwallau ffeithiol yn y canllawiau, er enghraifft lle dyfynnir deddfwriaeth sydd wedi'i diddymu. Maen nhw'n dweud hefyd eu bod yn gweld enghreifftiau yn gyson lle bydd ysgol yn defnyddio athro heb gymwysterau i gyflenwi, ond yn cadw'r person gan ofyn iddo "addysgu" yn groes i'r ddeddfwriaeth. Mae'r Cyngor yn rhoi gwybod am yr enghreifftiau hyn i Lywodraeth Cymru.

222. Roedd Athrawes Gyflenwi wedi cael siom yn yr adran ar reoli costau, gan ddweud ei bod yn hybu cystadleuaeth yn yr asiantaethau i ddarparu'r staff rhataf. Roedd yn credu hefyd bod yr adran yn annog pobl i ddefnyddio rhanddirymiad Sweden sy'n golygu bod athrawon cyflenwi profiadol yn gwrthod contractau mwy hirdymor, sy'n golygu mai athrawon cyflenwi dibrofiad yn unig fydd gan y disgyblion.

223. “Siomedig iawn” oedd Athro Cyflenwi. Roedd yn gofidio nad oedd yna sylw i dâl ac amodau. Awgrymodd mai gwneud y gwaith am y gost ariannol leiaf oedd nod y Gweinidog.

224. Roedd New Directions yn fodlon ar y canllawiau.